

Y Cyfle Gorau i Filgwn



Cyflwyniad i Lywodraeth Cynulliad Cymru yng ngoleuni cynigion i gyflwyno Rheoliadau a Chod Ymarfer ar gyfer rasio milgwn yng Nghymru



Cynnwys

Pennod 1: Cyflwyniad a chyd-destun hanesyddol y Fforwm Cymru	3
Aelodau'r Fforwm	4
Ffeithiau a ffigurau ynghylch Rasio Milgwn yng Nghymru	5
Rheoliadau ar gyfer Milgwn yng Nghymru	5
Ystyriaethau pellach	8
Pennod 2: Cynigion am fesurau i'w cynnwys yn y Rheoliadau a'r Cod Ymarfer	9
Cydnabyddiaethau	9
Cyd-destun Polisi	9
1. Fframwaith	10
2. Trwydded Trac	13
3. Trwydded Cenedl	15
4. Trwydded Perchennog/Hyfforddwr	15
5. Cludo	17
ATODIAD A: Enghreifftiau o'r drwydded Perchennog/Hyfforddwr a'r ffurflenni olrhain cysylltiedig a awgrymir	19
ATODIAD B: Canllawiau Arfer Da – Cenedl Cŵn	23
ATODIAD C: Canllawiau Arfer Da – Cludo	28



Pennod 1

Cyflwyniad a chyd-destun hanesyddol y Fforwm Cymru

Nid yw Grwpiau Hollbleidiol (a elwir hefyd yn grwpiau trawsbleidiol) yn rhan o'r broses ddeddfwriaethol ond maent yn fforwm i bob plaid wleidyddol a'r grwpiau diddordeb perthnasol gynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod materion. Ffurfiwyd y Grŵp Hollbleidiol dros Les Anifeiliaid (APGAW) yn 2000 ac, fel un o'r grwpiau Hollbleidiol cyntaf yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, mae wedi hybu proffil y math hwn o fforwm. Gan fod y Grŵp ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, mae grwpiau diddordeb – y mae dros ddegain ohonynt – yn cynnal rôl gysylltiol ac felly nid oes ganddynt swydd na phleidlais.

Tynged milgwn ar ôl eu gyrfa rasio oedd pwn cyfarfod agoriadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2000. Yn y cyfarfod hwnnw, penderfynwyd y dylid cynnal arolwg o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru i asesu nifer y milgwn crwydr a gafodd eu casglu dros gyfnod blwyddyn.

Ar ôl i 19 o awdurdodau lleol yng Nghymru lenwi a dychwelyd yr arolwg, lluniodd APGAW adroddiad¹ a oedd yn disgrifio'r chwe thynged annerbyniol i filgwn ar ôl eu gyrfa rasio, ac yn eu plith cael eu gadael yn rhydd a'r awdurdod lleol yn gorfod eu casglu. Yna ym mis Mai 2004 cafodd milgi o'r enw 'Last Hope' ei ddarganfod ar fynydd Fochriw, Caerffili, gyda'i glustiau (ac felly'r tatŵ adnabod) wedi'u torri i ffwrdd ac roedd hefyd wedi'i saethu yn ei ben. Roedd yn dal yn fyw, ond yn anffodus bu raid i filfeddyg roi'r anifail i gysgu yn ddiweddarach oherwydd ei anafiadau dychrynlyd. Ar ôl archwilio'r ci, daeth y milfeddyg i'r casgliad ei fod efallai wedi cael ei saethu ddyddiau'n gynt a bod y ci wedi bod yn fyw ar y mynydd ac yn agored i'r elfennau ers cryn amser. Dechreuodd RSPCA ymchwiliad ar unwaith gyda chymorth amhrisiadwy Achub Milgwn Cymru a'r Heddlu. O ganlyniad i natur erchyll yr achos hwn, y cydweithio rhwng cymdeithasau lles anifeiliaid a'r cyhoeddusrwydd a gafodd, adnabuwyd y rhai a gyflawnodd y drosedd drwy wybodaeth a roddwyd gan y gymuned rasio. Aeth yr achos i'r llys a chafodd Andrew Gough, a oedd wedi anffurfio'r ci, ei euogfarnu o dan Ddeddf Gwarchod Anifeiliaid 1911 a chael ei ddeddfrydu i 6 mis o garchar yn ogystal â chael ei wahardd rhag cadw anifeiliaid am oes. Yn syth ar ôl yr erlyniad hwn gan RSPCA ac ar gefn pwyslais newydd i gydweithio'n agosach i atal hyn rhag ailddigwydd, ffurfiwyd Fforwm Milgwn Cymru yn swyddogol. Sefydlwyd y Fforwm gan Lorraine Barrett AC, sy'n Gadeirydd APGAW yn ogystal â'r Fforwm, a cheir rhestr o'r aelodau eraill ar y dudalen nesaf. Ar ôl canlyniad achos Andrew Gough, cytunodd y Fforwm yn unfrydol fod hyd yn oed un ci a laddwyd yn y modd hwn yn un ci'n ormod. Cytunodd y Fforwm hefyd fod tua 100 o gŵn y flwyddyn yn wynebu tynged debyg i 'Last Hope' neu'n cael eu lladd gan eu perchennog.




Ers ei sefydlu, mae'r Fforwm wedi gweithio ar amrywiaeth o brosiectau i wella lles anifeiliaid sy'n rasio. Efallai mai un o'r cynigion pwysicaf yw cael dull adnabod dibynadwy, er mwyn olrhain pob ci ar unwaith i'w berchennog. Mae pob trac wedi cytuno i'r cynnig hwn ac wedi cytuno na ddylid caniatáu i unrhyw gi rasio heb y lefel olrhain hon drwy gydol ei yrfa rasio ac ar ôl ei yrfa rasio. Mae'r Fforwm wedi gweithio i ddatblygu'r syniad hwn a'r ffurflenni cysylltiedig, sydd i'w gweld yn Atodiad A. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Cŵn gronfa o ryw £14,000 wedi'i chlustnodi ar gyfer y gwaith cofnodi data ac i ddatblygu'r gronfa ddata sydd ei hangen i gefnogi'r cynllun hwn. Ni roddwyd y rhaglen hon ar waith eto oherwydd hoffai'r Fforwm bellach weld y cynllun yn rhan orfodol o unrhyw reoliad ac/neu god ymarfer o dan y Ddeddf Lles Anifeiliaid.

Mae'r Fforwm hefyd wedi cynhyrchu poster a thaflen¹ i amlygu bod milgwn yn anifeiliaid anwes da. Cafodd y rhain gyhoeddusrwydd helaeth gan bob trac, sy'n enghraifft wych o gydweithio'r Fforwm. Bu'r grŵp hefyd yn trafod canolbwyntio yn y dyfodol ar ddatblygu canllaw arfer gorau ar gyfer canfod cartref newydd i filgi.

Yn olaf, bu'r Fforwm yn datblygu'r manylion y dymuna eu gweld yn rhan o unrhyw reoliadau a chod ymarfer. Nodir y rhain ym Mhennod 2 y ddogfen hon.

¹ Copiau ar <http://www.apgawwales.org/reports.asp>

Aelodau'r Fforwm

Cadeirydd		Lorraine Barrett AC
Traciau		
Aelod fforwm a manylion cyswllt	Lleoliad y trac	Gwybodaeth ychwanegol
Lynne Short 17 Harlech Drive Parc y Castell Merthyr Tudful CF84 1JU 01685 370858, 07970 019418 lynnshort1959@yahoo.co.uk 	Stadiwm Milgwn Abertawe Heol Ystrad Fforestfach Swansea SA5 4NE 01792 579368	- Mae'r trac hwn ar dir sydd ar brydles gan yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd - Cenelau cŵn ar y safle - Tŷ clwb ar y safle
Malcolm Tams Vale View Trelyn Uchaf, y Coed-duon Caerphilly NP12 1PD 01443 821373, 07939 259191 mtamsy@aol.com 	Trac Milgwn y Cwm Clwb Athletau Tredomen Ystrad Mynach Caerphilly	- Cafwyd y tir hwn ar brydles gan berchenogion y tir, Clwb Cymdeithasol Tredomen - Dim cenelau cŵn ar y safle - Tŷ clwb gerllaw sy'n cael ei redeg gan y clwb cymdeithasol
Vera Rees The Bungalow Trac Milgwn Bedwellte Bedwellte ger y Coed-duon Caerffili NP12 0BD 01433 831072	Trac Milgwn Bedwellte Bedwellte Ger y Coed-duon Caerffili NP12 0BD	Ar gau ac ar werth ar hyn o bryd - Rhedid y trac gan berchennog a oedd yn byw ar y safle. - Dim cenelau cŵn na thŷ clwb
Cymdeithasau lles		
Claire Lawson Rheolwr Materion Cyhoeddus RSPCA Cymru (Swyddfeydd APGAW a'r Fforwm Milgwn)	RSPCA Cymru Blwch Post 27 Caerdydd CF15 8WZ Ffôn 0870 753 8906 neu 07976 854166 Clawson@rspca.org.uk	
Alain Thomas Sylfaenydd a Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus Achub Milgwn Cymru	Lawnswood Sandy Lane Parkmill Abertawe SA3 2EW Ffôn: 01792 371413 neu 07971 074922 alain.thomas@btinternet.com	
Sian Edwards Rheolwr Ymgyrchoedd Cymru Yr Ymddiriedolaeth Cŵn	Canolfan Ailgartrefu'r Ymddiriedolaeth Cŵn Court Colman Farm Court Colman Pen-y-fai Pen-y-bont ar Ogwr Morgannwg Ganol. CF31 4NG Ffôn 01656 725345 neu 07932 114534 sian.edwards@dogstrust.org.uk	

Ffeithiau a ffigurau ynghylch Rasio Milgwn yng Nghymru

drwy gytundeb aelodau Fforwm Milgwn Cymru

Nifer y cŵn sy'n rasio'n rheolaidd yng Nghymru	Rhwng 300 a 400
Nifer y cyfarfodydd ras bob wythnos	4 yr wythnos mewn 2 drac, 7 ras i bob cyfarfod gyda 5 neu 6 chi ym mhob ras
Amcangyfrif y Fforwm hwn o nifer y cŵn sydd 'ar goll' bob blwyddyn	Mae'r Fforwm wedi cytuno y gallai hyn fod yn 100
Nifer y cŵn sy'n cael eu gadael ac sy'n mynd i ffaldau awdurdod lleol bob blwyddyn	Canfu arolwg APGAW www.apgawwales.org 139 o filgwn a adawyd yng Nghymru mewn un flwyddyn ond gallai ffactorau sy'n cyfrannu fod yn gostwng hyn

Rheoliadau ar gyfer Milgwn yng Nghymru



Deddf Lles Anifeiliaid – Cymru

Mae Deddf Lles Anifeiliaid² 2006, a ddaeth i rym yng Nghymru a Lloegr yn 2007, yn gwneud perchenogion a cheidwaid anifeiliaid sy'n ddomestig ac yn gwmni yn gyfrifol am sicrhau bod anghenion lles eu hanifeiliaid yn cael eu bodloni. Mae hyn yn rhoi dyletswydd gofal ar y perchennog/ceidwad ac yn cael ei gynnwys yn y pum rhyddid:

Mae anghenion anifeiliaid (y pum rhyddid) yn cynnwys:

- Angen am amgylchedd addas
- Angen am ddiet addas
- Angen gallu arddangos patrymau ymddygiad normal
- Unrhyw angen i fyw gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân iddynt, ac
- Angen i gael eu hamddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefyd.

Mae'r Ddeddf Lles Anifeiliaid hefyd yn rhoi grym i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud deddfwriaeth ar ffurf Rheoliadau a Chodau Ymarfer. Mae'r Fforwm yn croesawu'r cynlluniau a gyhoeddir ar gyfer mesurau o'r fath o ran rasio a lles Milgwn yn 2007/8.

Mae'r papur hwn yn nodi'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd a'r dadleuon o blaid rheoleiddio priodol, yn ôl barn y Fforwm.

Mae Pennod (2) yn amlinellu'r hyn sydd ei angen o safbwynt y Fforwm. Ac eithrio mater presenoldeb milfeddyg gorfodol mewn cyfarfodydd ras, mae'r Fforwm Milgwn yn cytuno'n unfrydol i bob cynnig sy'n cael ei gynnwys yn y ddogfen hon. Gall rhai o'r rhain ffurfio rhan o reoliad, tra byddai eraill yn fwy addas i God Ymarfer efallai.

Mae Atodiad A yn ddisgrifiad manwl, gan gynnwys y ffurflenni arfaethedig, ar gyfer rhaglen adnabod lawn i bob Milgi rasio sy'n gysylltiedig â'r perchennog drwy Drwydded Perchennog/Hyfforddwr.

² http://new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/animal_welfare/animalwelfareact/?lang=en




Cefndir

Yn y blynyddoedd diwethaf, bu tri thrac annibynnol ar waith yng Nghymru, ond mae trac Bedwellte (ym Mwrdeistref Sirol Caerffili) ar gau ar hyn o bryd ac ar werth. Mae 'Annibynnol' mewn Rasio Milgwn yn golygu nad yw'r traciau hynny'n cael eu rheoli gan y Clwb Rasio Milgwn Cenedlaethol (NGRC). Cyfeirir atynt hefyd weithiau'n 'draciau chwifio' ('flapping tracks'). Mae NGRC yn system hunanreoleiddio ac mae'n canolbwyntio gan mwyaf ar lywodraethu tegwch a rheolau rasio, ond nid yw'n cydnabod pwysigrwydd lles ac mae wedi ymdrechu, yn y blynyddoedd diwethaf, i wella safonau. Heb unrhyw glwb rasio milgwn cenedlaethol na mathau eraill o reoleiddio, bu'r traciau yng Nghymru yn gweithredu'n fusnesau preifat ac yn gorfod bodloni gofynion Trwydded Hapchwarae yn unig.

Pam achos arbennig i Gymru?

Cred y Fforwm fod y rheini sy'n ymwneud â rasio a'i reoleiddio arfaethedig yn Lloegr i raddau helaeth wedi anwybyddu'r problemau a ddeillia o'r sector rasio annibynnol. Yn ei dystiolaeth lafar i bwyllgor EFRA yn archwilio'r Mesur Lles Anifeiliaid Drafft, dywedodd Arglwydd Lipsey, Cadeirydd y Bwrdd Rasio Milgwn Prydeinig "...Ond mae hynny'n dychwelyd i gwestiwn a godwyd am draciau annibynnol nad aethom i'r afael ag ef yn uniongyrchol. Yn fy marn i, os edrychwch ar natur y rhan fwyaf o'r traciau annibynnol hyn, maent yn diflannu yn gyflym. Yn bennaf, maent yn ddyn a bachgen ac, wrth i amser fynd heibio, maent yn mynd allan o fusnes yn gyflym, fel y dywedais. Yn fy marn i, dim ond dau ddewis sydd ganddynt: mynd allan o fusnes neu ymuno â NGRC gyda'r holl reoleiddio sydd ynghlwm wrth hynny.³" Er y gallai rheoliadau newydd orfodi traciau annibynnol allan o fusnes, nid yw hynny'n wir am bob un. Yn ogystal, gan fod NGRC yn anllwyodraethol, credwn na ddylid gorfodi traciau annibynnol i ymuno. Mae hyn, drwy ddiffiniad, yn gadael sector annibynnol y mae angen ei reoleiddio. Mae llawer yn teimlo bod hyn yn bwysig i'r diwydiant gan ei fod yn rhoi gyrfa hwy i filgwn gan fod llawer yn dechrau ar draciau NGRC ond yn gorffen eu gyrfa yn y sector annibynnol a'r perchenogion yn fwy tebygol o gadw eu milgi fel anifail anwes ar ôl rasio. Mae'r anifail yn fwy tebygol hefyd o gael cartref yng nghartref y teulu ac efallai cael amserlen rasio ysgafnach.

³ <http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200405/cmselect/cmenvfru/52/52ii.pdf> [EV232]



Cynigion i Loegr?

Mae dyfodol unrhyw Reoliad neu God Ymarfer yn Lloegr ar gyfer Milgwn yn amhendant ar hyn o bryd. Bu sawl rheswm am hyn. Yn benodol, cafwyd dau ymchwiliad yn sgil sylw'r wasg i'r achos yn Swydd Dyrham lle honnir bod unigolyn wedi lladd 10,000 o filgwn (ar gais y perchennog) pan nad oedd unrhyw ddefnydd pellach iddynt. Roedd yr ymchwiliad cyntaf gan y Grŵp Seneddol Cysylltiol dros Les Anifeiliaid yn ymchwilio i'r materion lles cyffredinol sy'n wynebu milgwn sy'n rasio yn Lloegr, gellir gweld yr adroddiad ar www.apgaw.org. Mae'r ail ymchwiliad yn parhau ac yn cael ei gynnal gan Arglwydd Donoughue ar ran y diwydiant. Cred llawer o gymdeithasau lles fod achos Swydd Dyrham yn cyfiawnhau eu cred ers tro na ddylai NGRC fod yn sicrhau safonau lles ac yn wir fod egwyddor hunanreoleiddio yn gynhenid ddiffygiol.

Mae APGAW Cymru wedi cyfranogi at y ddadl yn Lloegr, yn Fforwm Milgwn y DU⁴ ac ymchwiliad APGAW San Steffan, a arweiniodd at dystiolaeth ysgrifenedig a llafar⁵ yn yr ail achos. Byddai APGAW Wales a Fforwm Milgwn Cymru yn fodlon rhannu unrhyw wybodaeth â'n cymheiriaid yn Lloegr. Yn benodol, mae'r Fforwm yng Nghymru yn manylu ar dynged milgwn drwy gynnal arolygon o filfeddygon a chymdeithasau achub anifeiliaid a chyda chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae am ailgynnal arolygon o'r awdurdodau lleol yn fuan.

Dim ond traciau annibynnol sydd gan Gymru. Rhaid i unrhyw bolisi, rheoleiddiad neu god ymarfer dilynol adlewyrchu hynny. Nid oes unrhyw ewyllys gwleidyddol nac ymgyrch cyhoeddus i roi diwedd ar rasio milgwn yng Nghymru ac nid yw'r grŵp hwn yn argymhell hynny chwaith. Fodd bynnag, mae angen dybryd am reoleiddio i sicrhau lles y milgwn sy'n rasio yng Nghymru.

Wrth reswm, pe byddai safonau lles yn uwch yn Lloegr o ganlyniad i unrhyw reoleiddiad a gyflwynir yno a phe na fyddai

⁴ Cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Cŵn (swyddfa Fforwm y DU) ar 0207 837 0006

⁵ Ar gael ar www.apgawales.org.uk a www.apgaw.org

unrhyw beth yn cael ei ddatblygu yng Nghymru, gallem ddisgwyl gweld nifer o draciau'n symud i Gymru. Ar hyn o bryd, mae tua 9 trac annibynnol yn Lloegr. (Mae hefyd dau drac yn yr Alban ond, fel yng Nghymru, daw'r rhain o dan awdurdod y Llywodraeth ddatganoledig). Mae'n allweddol nad yw Cymru na Lloegr drwy fwriad, nac esgeulustod, yn rhoi cyfle i allforio neu fewnforio creulondeb ar ôl cyflwyno Rheoliadau ac/neu Godau.

Un rheswm allweddol arall am reoleiddio yng Nghymru yw diffyg clwb rasio milgwn cenedlaethol yng Nghymru ar hyn o bryd; ni fyddai unrhyw safon ddiwydiant nac unrhyw gorff ymbarél yn mynnu ychwaith bod traciau Cymru yn cydymffurfio. Ar y llaw arall a beth bynnag, nid yw'r Fforwm hwn yn barod i gefnogi NGRC yn gorff rheoleiddio ar gyfer rasio yng Nghymru. O astudio'n agosach, gellir ystyried nad yw rheolau NGRC ynghylch lles yn hanner digonol nac yn cael eu gorfodi'n llym.

Y rheswm am hyn yw nad oes statws digon uchel i'r rheolau lles yn rasio NGRC, ac yn hytrach cânt eu hymgorffori mewn rheolau eraill, sy'n ymwneud llawer mwy â rasio a thegwch – y prif reswm y crëwyd NGRC. Mae stiwardiaid cyflogedig NGRC yn gyfrifol am orfodi holl reolau rasio a lles, sydd wedi golygu'n hanesyddol fod rasio wedi cael blaenoriaeth.

Mae Rheol 18 NGRC⁶ yn enghraifft dda o reol a anwybyddir yn aml ac nis gorfodir yn helaeth o gwbl.

⁶ http://www.ngrc.org.uk/_book.asp?rule=34, Gweler isod.

Cafwyd rhai enghreifftiau o orfodi'r rheol hon yn ddiweddar, ond dim ond ambell enghraifft o orfodi sancsiynau a geir mewn gwirionedd. Er enghraifft, hoffai'r Fforwm Cymru wybod canlyniad yr ymchwiliadau yn dilyn achos Swydd Dyrham. Cred y Fforwm mai rheoleiddio rasio milgwn yn annibynnol yw'r opsiwn gorau i sicrhau bod safonau lles priodol yn cael eu sefydlu, eu gorfodi a'u cynnal.

Ffotograff: Chris Montana



Rheol 18 Cyfrifoldeb y Perchennog

- (i) Bydd Stiwardiaid NGRC yn dal y Perchennog cofrestredig diwethaf yn gyfrifol am les Milgi a hefyd am wneud trefniadau derbyniol ar gyfer ei filgi sydd wedi ymddeol fel a ganlyn:
 - a) cadw'r Milgi yn anifail anwes, neu
 - b) lletya'r Milgi mewn Cenedl Trwyddedig, neu
 - c) lletya'r Milgi mewn Cenedl a drwyddedwyd gan yr awdurdod lleol, neu
 - d) dod o hyd i gartref i'r Milgi drwy'r Ymddiriedolaeth Milgwn wedi Ymddeol, neu
 - e) werthu neu ganfod cartref i'r Milgi, yn gyfrifol, neu os oes angen cynnal ewthanasia ar y Milgi naill ai am resymau trugarog neu gan nad yw un o'r opsiynau uchod ar gael, bydd y Perchennog yn sicrhau, yn amodol ar reol 58, y cynhelir ewthanasia felly gan filfeddyg cofrestredig.
- (ii) Bydd y perchennog cofrestredig yn rhoi gwybod i NGRC os oes unrhyw newid perchennogaeth ar Filgi cofrestredig ac a fwriedir iddo gystadlu mewn unrhyw Dreial neu Ras eto (gweler Rheol 20). Bydd Perchennog cofrestredig hefyd yn hysbysu, neu'n trefnu i Hyfforddwr trwyddedig hysbysu ar ei ran, am ymddeoliad Milgi na fwriedir iddo gystadlu mewn unrhyw Dreial na Ras eto, na dychwelyd wedyn o gwbl o ymddeoliad yr hysbyswyd amdano yn flaenorol, i Reolwr Rasio unrhyw Gwrs Ras Trwyddedig NGRC a chadw derbynneb ar ffurf copi o Adroddiad Manylion Milgi a baratowyd o dan Reolau 195(i) a 194(vii).
- (iii) Os methir rhoi gwybod am y Newid Perchennogaeth o dan Reol 18(i) ymhen 28 Diwrnod, bydd cosb yn cael ei rhoi a gall arwain at Stiwardiaid NGRC yn atal Perchennog rhag cofrestru Milgwn oni all fodloni'r Stiwardiaid y bydd ymddeoliad unrhyw Filgi y mae'n gyfrifol amdano yn y dyfodol yn cydymffurfio'n llwyr â Rheol 18.

Clwb Rasio Milgwn Cenedlaethol (NGRC) yng Nghymru?

Nid oes unrhyw draciau NGRC yng Nghymru ar hyn o bryd ond gallai trac annibynnol presennol newid i fod yn drac NGRC neu gellid adeiladu trac newydd. Mae'r ddwy sefyllfa'n annhebygol ar hyn o bryd. Yn wir, byddai'n rhaid i'r traciau annibynnol sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd fuddsoddi llawer iawn o arian i fodloni'r safonau mynediad a fynnir gan NGRC. Ar hyn o bryd, mae'r ddau drac ar dir a gafwyd ar brydles a gellir pennu eu bod yn annymunol i'r NGRC.

Cred y Fforwm yn gryf felly y byddai'n amhriodol, os nad yn amhosibl, penodi NGRC i orfodi yng Nghymru ar hyn o bryd. Heb bresenoldeb NGRC yng Nghymru, mae'n allweddol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n sefydlu rheoliadau clir ar gyfer rasio i amddiffyn y cŵn hyn yng Nghymru ac mae'r Fforwm hwn yn fodlon cefnogi.



Ystyriaethau pellach

Mae Fforwm Milgwn Cymru yn cydnabod bod sawl mater nad ydynt yn cael sylw yn y ddogfen hon, eto maent yn faterion pwysig a byddai'r Fforwm yn fodlon cyfrannu at ganfod atebion. Dyma'r materion:

a) Cofrestr Bridwy

Pryderir yn fawr iawn am nifer y cŵn bach a gynhyrchir bob blwyddyn yn y DU ac Iwerddon a'r diffyg olrhain ar yr anifeiliaid hyn. Byddai cofrestr bridwyr yn gwneud cryn dipyn i fynd i'r afael â'r broblem. Er nad yw'r Fforwm wedi trafod polisi yn y maes hwn hyd yn hyn, awgrymir bod rhaid i'r rheini sy'n bwriadu treialu/rasio ci bach sicrhau ei fod wedi'i gofrestru ar gofrestr cŵn bach cyn gynted â phosibl ar ôl ei eni. Yn ogystal, rhaid cwblhau proses adnabod (microsglodyn) erbyn 3 mis oed.

b) Materion trawsffiniol

Mae Fforwm Milgwn Cymru yn awyddus nad yw unrhyw Reoliadau/Cod Ymarfer yn rhoi cyfle i fewnforio nac allforio creulondeb. Fodd bynnag, nid oes rhaid i reolau gwahanol yng Nghymru a Lloegr greu anghydwysedd o reidrwydd, ond yn hytrach gallant ategu ei gilydd. Rydym yn awyddus i weld bod perchenogion/hyfforddwyr sy'n byw yng Nghymru ond yn rasio ar draciau NGRC ac/neu draciau annibynnol yn Lloegr yn gorfod bodloni yr un rheolau â phob perchenog/hyfforddwr arall yng Nghymru. Fodd bynnag ni fyddem yn disgwyl chwaith i berchenogion/hyfforddwyr sy'n byw yn Lloegr fod yn agored i safonau is pe byddent yn dymuno rasio yng Nghymru.



Pennod 2

Cynigion am fesurau i'w cynnwys yn y Rheoliadau a'r Cod Ymarfer

Mae'r bennod ganlynol yn fersiwn derfynol dogfen y bu aelodau'r Fforwm yn gweithio arni am sawl mis gyda'r bwriad o gynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion lles milgwn rasio yng Nghymru. Penderfynwyd peidio â rhannu argymhellion yn Rheoliad a Chod, ond cyflwyno'r wybodaeth mewn fformat sy'n ymwneud yn unig ag anghenion y Milgi.

Lle bo'n bosibl, rydym wedi ymdrechu i fabwysiadu modelau deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli ar gyfer ein meysydd polisi. Mae'r Fforwm wedi trafod yr angen i reoleiddio ac wedi cytuno bod hyn yn bosibl, gydag ystyriaeth briodol, heb achosi gormodedd o fân-reolau, os mabwysiadir system debyg i'r system rydym wedi'i chynnig.

Cydnabyddiaethau

Mae'r rheoliadau hyn yn tynnu'n helaeth ar ddwy ddogfen:

- Y "Canllaw Arfer Gorau" a ddaw gyda'r "Siarter ar gyfer y Milgi Rasio" a luniwyd gan Fforwm Milgwn y DU.
- Rheolau Rasio NGRC.

Yn achos Rheolau Rasio NGRC, mae'r rheoliadau hyn wedi ceisio ymgorffori, ac weithiau addasu, y rheolau sy'n berthnasol i les.

Mae'r rheoliadau hyn hefyd wedi ymgorffori elfennau o'r "Canllaw Arfer Gorau" lle bo'r rhain yn gwella lles neu'n darparu deunydd atodol i reolau NGRC.

Yn olaf, mae ychydig o ddeunydd newydd hefyd wedi'i gynllunio'n benodol i ymateb i gyd-destun Cymru a gwella lles ymhellach.


Fel hyn, gobeithir bod y rheoliadau hyn yn cynnig man cychwyn defnyddiol tuag at reoleiddio rasio milgwn yn briodol yng Nghymru.

Cyd-destun Polisi

Un o elfennau arbennig y rheoliadau yw'r mynd ati fel partneriaeth i ddarparu gwasanaeth. Bydd dwy rôl reoleiddio. Cyflenwir y rôl drwyddedu gan gorff statudol (awdurdod lleol) a chyflenwir y rôl fonitro ategol drwy Fforwm Milgwn Cymru sy'n dod â'r sector gwirfoddol (cymdeithasau lles) a chynrychiolwyr diwydiant (Traciau Cymru) ynghyd. Yn amlwg, bydd angen ffurfioli'r berthynas rhwng y ddau gorff. Fodd bynnag, mae egwyddor creu synergedd i ddarparu gwell gwasanaethau drwy bartneriaethau rhwng gwahanol randdeiliaid yn cyd-fynd â haen bwysig o bolisi LICC sydd wrthi'n datblygu. Er enghraifft, mae hyn i'w weld mewn polisi gwasanaeth cyhoeddus (gweler er enghraifft Creu'r Cysylltiadau - gwell gwasanaethau i Gymru, LICC 2004) ac mewn polisi datblygu cymunedol (er enghraifft yr "egwyddor tair rhan o dair" a ddefnyddir gan y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf).



Ffotograff: Greyhound Rescue Wales



1. Fframwaith

1.1 Awdurdodau trwyddedu

Yr awdurdod trwyddedu fydd yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am yr ardal lle mae'r gweithgarwch yn digwydd.

Mae'r grym gan yr Awdurdod Lleol i roi, gwrthod rhoi, gwahardd neu ddiddymu pob trwydded y sonnir amdani yn y ddogfen hon.

Rhaid bod y personél a benodir gan yr awdurdod trwyddedu i roi'r rheoliadau hyn ar waith yn annibynnol a heb unrhyw ddiddordeb personol (h.y. ni chânt fod yn aelod o gymdeithas lles milgwn nac ymwneud ag unrhyw agwedd ar rasio milgwn).

Wrth bennu a ddylid rhoi, gwrthod rhoi, gwahardd neu ddiddymu'r trwyddedau a phasbort uchod, bydd yr awdurdodau perthnasol yn rhwym wrth ddarpariaethau penodol y rheoliadau hyn.

1.2 Trwyddedau

a) Trwydded Trac

Rhaid bod Trwydded Trac ddiweddar gan bob Stadiwm Milgwn yng Nghymru a gyhoeddwyd gan yr awdurdod trwyddedu. Dyfernir y drwydded honno ar ôl arolygiad cychwynnol. Gall yr awdurdod trwyddedu gynnal arolygiadau ychwanegol ar sail risg, a gall yr adolygiadau hyn fod wedi'u trefnu neu yn rhai heb rybudd, fel y gwêl yn addas.

Dim ond os yw'n fodlon bod y Trac wedi bodloni'r holl amodau y bydd yr awdurdod trwyddedu'n adnewyddu'r Drwydded Trac.

Bydd ffi ar gyfer y drwydded a bennir gan yr awdurdod trwyddedu (rydym yn awgrymu £100 y flwyddyn – defnyddir y ffi tuag at gostau'r awdurdod trwyddedu).

b) Trwydded Cenal

Mae'n rhaid i unrhyw safle sy'n cadw pump neu fwy o filgwn rasio gael trwydded cenel gyfredol ac ystyried y "Canllawiau Arfer Da (Atodiad B)" atodol. Ni chaiff milgwn wedi ymddeol, h.y. milgwn anwes, eu cynnwys yn y ffigur hwn.

Dyfernir y drwydded hon ar ôl arolygiad cychwynnol llwyddiannus. Gall yr awdurdod trwyddedu gynnal arolygiadau unswydd ychwanegol fel y gwêl yn addas.

Dim ond os yw'n fodlon bod y perchennog wedi bodloni'r holl amodau y bydd yr awdurdod trwyddedu'n adnewyddu'r Drwydded Cenal.

Bydd ffi ar gyfer y drwydded a bennir gan yr awdurdod trwyddedu (awgrymir £20 am le sy'n cadw 5 ci ac yna £5 am bob lle ci ychwanegol y flwyddyn, a dylai'r ffi gyfrannu at dalu costau'r awdurdod trwyddedu).

c) Cofrestru Perchennog/Hyfforddwr

Defnyddir y term perchennog ac/neu hyfforddwr i ddynodi perchennog cyfreithiol y milgi sy'n gyfrifol am les y ci o dan y rheoliadau hyn.

Rhaid bod Trwydded Perchennog/Hyfforddwr gan bob Perchennog ac/neu Hyfforddwr milgwn sy'n rasio ar Draciau yng Nghymru.

Rhaid adnewyddu'r drwydded bob pum mlynedd.

Rhaid rhestru ar y drwydded bob milgi y mae'r perchennog/hyfforddwr yn berchennog arno/yn ei rasio.

Rhaid diweddarau'r drwydded bob tro y mae perchennogaeth milgi'n newid ac os bydd golwg corfforol milgi yn newid (e.e. torri bys troed i ffwrdd).

Bydd ffi am roi neu newid manylion trwydded y Perchennog/Hyfforddwr (awgrymir £5 – a dylai'r ffi fynd tuag at gostau cynnal y gronfa ddata)

d) Rheoliadau cludo a chanllawiau arfer da

Rhaid i unrhyw un sy'n cludo milgwn rasio yn ôl ac ymlaen i rasys, treialon neu werthiannau yng Nghymru gadw at y rheoliadau yn adran 5 y ddogfen hon ac ystyried y canllawiau arfer da (Atodiad C) atodol.

Cyfrifoldeb perchennog/hyfforddwr milgi yw sicrhau bod gyrywyr neu bobl eraill sy'n gyfrifol am filgi ar daith neu mewn cerbyd llonydd yn cadw at y rheoliadau a'r canllawiau.

1.3. Amodau

Nodir yn y rheoliadau hyn yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn cyhoeddi unrhyw un o'r uchod.

1.4 Arolygu a monitro

a) Arolygwyr Awdurdodedig

Bydd y Gweinidog priodol yn sefydlu rhestr o bobl sydd wedi'u hawdurdodi i gynnal arolygiadau o dan y rheoliad 'arolygwyr'. (Mae hyn yn debyg i'r model ar gyfer Arolygwyr Sw). Ni cheir awdurdodi unrhyw un arall i arolygu. Rhaid i arolygwyr brofi eu cymhwysedd naill ai fel milfeddygon â phrofiad priodol, perchenogion profiadol, hyfforddwyr, cynrychiolwyr neu gymdeithasau lles sy'n ymdrin yn rheolaidd â milgwn rasio. Rhaid ymgynghori â Fforwm Milgwn Cymru cyn cymeradwyo unrhyw un a enwebir ar gyfer y rôl.

b) Dyletswyddau arolygwyr

Bydd yr arolygwyr yn monitro gweithrediad y Rheoliad / Cod Ymarfer yng Nghymru drwy:

Arolygu pob trac milgwn unwaith y flwyddyn neu'n amlach os oes unrhyw bryderon ynghylch lles.

Arolygu pob cenel milgi yng Nghymru a drwyddedir o dan y rheoliadau hyn unwaith bob blwyddyn, neu'n amlach os oes pryderon ynghylch lles.

Caiff arolygwyr arolygu cerbydau a ddefnyddir i gludo milgwn pan fo'n bosibl (er enghraifft wrth gynnal arolygiad o gwt ci os yw cerbydau wedi'u parcio yn yr un safle), yn ôl yr angen (er enghraifft os oes pryderon lles). Caiff arolygwyr wneud arolygiadau yn ôl yr angen i sicrhau bod milgwn yn cael eu cadw'n unol â'r wybodaeth a gedwir ar y gronfa ddata a bod eu lles yn dilyn safonau lles.

1.5 Monitro lles

a) Cynrychiolydd Lles Trac Enwebedig

Bydd Fforwm Milgwn Cymru yn cymeradwyo Cynrychiolwyr Lles (a enwebir gan bob trac) ac yn goruchwyllo eu rôl.

b) Rôl Cynrychiolydd Lles Trac Enwebedig

Bydd cynrychiolwyr Lles Trac a enwebir gan bob trac yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer materion lles yn y trac.

Yn ogystal, bydd pob Cynrychiolydd Lles Trac yn gyfrifol am fonitro cronfa ddata perchenogion/hyfforddwyr a milgwn er mwyn canfod ymhle y mae milgwn a sicrhau bod rheoliadau'n cael eu dilyn.

Bydd yr awdurdod trwyddedu, rheolwyr trac, a pherchenogion/hyfforddwyr yn cydweithio â Chynrychiolwyr Lles ac yn caniatáu iddynt weld pob cronfa ddata a data arall perthnasol.

1.6 Fforwm Milgwn Cymru

a) Strwythur

Pe byddai rheoliadau/Cod Ymarfer yn y dyfodol yn diogelu rôl y Fforwm Milgwn Cymru, efallai y byddai gofyn am roi sylw i'r aelodaeth ac i'r Llywodraeth ei gwarantu. Byddem yn awgrymu aelodau pellach o'r Awdurdodau Lleol ac/neu adrannau gorfodi.

Bydd hawl gan bob trac benodi cynrychiolydd i'r Fforwm.

Bydd hawl gan bob grŵp lles anifeiliaid yng Nghymru sydd â diddordeb mewn milgwn (yr Ymddiriedolaeth Cŵn, Achub Milgwn Cymru a'r RSPCA) benodi cynrychiolydd i'r Fforwm.

Bydd Cadeirydd annibynnol gan y Fforwm. Ar hyn o bryd, daw'r Cadeirydd o APGAW (y Grŵp Hollbleidiol dros Les Anifeiliaid, yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru).

Bydd y Fforwm yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

Ar hyn o bryd, mae RSPCA yn darparu'r swyddfa ar gyfer APGAW Cymru a Fforwm Milgwn Cymru a gallai ystyried parhau'r gwasanaeth hwn.

b) Cyfrifoldebau ategol

Bydd y Fforwm yn cadw cyfrifoldebau dros gronfa ddata ategol er mwyn monitro'r cynlluniau adnabod ac olrhain.

Bob blwyddyn bydd y Fforwm yn enwebu o leiaf 2 unigolyn (rhaid bod 50% yn dod o'r cymdeithasau lles) i fod yn gyfrifol am fonitro'r gronfa ddata. Dyma bersonél ychwanegol a gwahanol i gynrychiolwyr lles y traciau. Yn yr achos hwn, eu hunig gyfrifoldeb yw monitro'r gronfa ddata'n ganolog. Bydd y cynrychiolwyr monitro hyn yn adrodd i'r Fforwm fel y mynna.

Gall y Fforwm wneud argymhellion ar sail adroddiadau o'r fath; i'r Awdurdod Trwyddedu, neu i Arolygwyr i gynorthwyo a thywys yr Arolygwyr i gyflawni eu dyletswyddau er enghraifft o dan 1.4b uchod.

Gall fod yn briodol i'r Gweinidog gadarnhau apwyntiadau i'r Fforwm a'r cynrychiolwyr monitro.

1.7 Cosbau

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gosod cosbau ar berchenogion, neu hyfforddwyr neu reolwyr trac milgwn os yw'n fodlon y torrwyd unrhyw reoliadau mewn cysylltiad â'r drwydded trac neu'r drwydded cenedl, neu'r rheoliadau cludo.

Gall Fforwm Milgwn Cymru roi gwybod i'r awdurdod trwyddedu os yw'n credu, o ganlyniad i'w weithgareddau monitro, y torrwyd y rheoliadau neu'r cod ymddygiad yn benodol o ran cadw cofnodion cywir o berchenogaeth a throsglwyddo perchenogaeth ar filgwn.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymgynghori â Fforwm Milgwn Cymru i roi tystiolaeth cyn i'r Awdurdod Lleol osod cosbau ar berchenogion milgwn, neu hyfforddwyr neu reolwyr trac os yw'r Awdurdod Lleol yn fodlon y torrwyd unrhyw reoliadau mewn cysylltiad â'r drwydded perchennog/hyfforddwr neu ofynion trosglwyddo perchenogaeth.

Bydd cosbau felly'n cynnwys:

- Rhoi rhybudd ysgrifenedig
- Cosb ariannol (i'w phennu)
- Gwahardd trwydded am gyfnod.
- Diddymu trwydded yn barhaol.
- Gwahardd rhywun rhag mynychu trac milgwn.

Os bydd perchennog/hyfforddwr yn torri unrhyw un o'r rheoliadau isod bydd yr awdurdod lleol yn gorfod gwahardd dros dro neu ddiddymu'n barhaol drwydded y Perchennog/Hyfforddwr, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau ym mhob achos. Os torrir unrhyw un o'r rheoliadau hyn yn fynych, bydd rhaid i'r awdurdod lleol ddiddymu'r drwydded perchennog/hyfforddwr yn barhaol.

4.1 (Rhaid bod trwydded ddiweddar gan y Perchennog/Hyfforddwr)

4.2 (Rhaid i'r Perchennog/Hyfforddwr gydymffurfio â chynghor milfeddyg)

4.3 (Rhaid i'r Perchennog/Hyfforddwr gydweithredu ag arolygwyr)

4.4 (Rhaid i filgwn gael microsglodyn a rhaid i'r perchennog/hyfforddwr drosglwyddo cofrestrïad)

4.5 (Rhaid i'r Perchennog/Hyfforddwr gofnodi trosglwyddiad perchenogaeth os caiff y milgi ei werthu neu os caiff gartref newydd)

4.6 (Y Perchennog/Hyfforddwr sy'n gyfrifol am les y milgi ac am wneud trefniadau derbyniol pan fydd yn ymddeol).

Bydd yr Awdurdod Lleol hefyd yn gorfod diddymu trwydded yn barhaol os canfyddir bod y deiliad wedi achosi gofid dianghenraid i filgi neu wedi methu yn ei ddyletswydd gofali i filgi.

1.8 Apeliadau

Ar unrhyw adeg, caiff yr Awdurdod Lleol wahardd, diddymu neu wrthod adnewyddu trwydded; ni cheir ymatal yn afresymol rhag unrhyw waharddiad neu wrthodiad felly. Gall unrhyw un sy'n tybio y cafodd gam gan weithred o'r fath apelio ymhen 30 diwrnod i Lys Ynadon a chaiff y weithred ei gohirio hyd nes penderfynu'r apêl.

2. Trwydded Trac

Mae'r Fforwm yn argymhell yn ffurfiol gost enwol o £100 y flwyddyn ar gyfer y drwydded trac sy'n daladwy i'r corff trwyddedu – yr Awdurdod Lleol.

Rhoir trwydded trac i gynnal rasys milgwn yng Nghymru os bodlonir yr amodau canlynol:

2.1 Cyflwr cyffredinol y trac

Caiff y trac ei gynnal a'i gadw'n dda i sicrhau na fydd unrhyw beth fel ymylon miniog, arwynebau sydd wedi torri neu sy'n arw, neu osodiadau rhydd, yn achosi unrhyw berygl o anaf i'r milgwn.

2.2 Mesuriadau

Dylai cylchedd lleiaf y trac, wedi'i fesur un metr o'r ffens fewnol, fod yn o leiaf 400 metr. Dim ond mesuriadau a wneir gan fesurydd cymwys sy'n dderbyniol. Dylai lled y trac fod yn o leiaf 5.5 metr ar y darnau syth neu 7.4 metr o amgylch y troeon. Dylai'r troeon gael ychydig o glawdd o'r tu mewn i'r tu allan - argymhellir cribinio 45cm. Dylai cromlin y troeon fod mor raddol ag y mae lled y rhan rhwng y ddau ddarn syth yn ei ganiatáu a rhaid bod digon o le i garlam milgi. Mae rhyw 36 metr yn radiws delfrydol ar gyfer y troeon.

2.3 Graddiant

Bydd y trac yn wastad heb unrhyw raddiant sylweddol. Graddiant sylweddol yw un sy'n cynyddu risg anaf i filgwn sy'n rasio.

2.4 Arwynebau

Rhaid defnyddio arwyneb priodol fel tywod ar droeon y trac. Ceir defnyddio glaswellt neu dywod ar y manau syth. Argymhellir gosod y tywod i ddyfnder o leiaf 175mm a, phan fydd wedi'i wasgu i lawr, dylai ddarparu arwyneb diogel wedi'i gywasgu sy'n rhoi gafael da. Mae cyfleusterau dyfrhau da a draeniad da yn hanfodol. Mae math y tywod yn bwysig iawn. Rhaid ei fod yn rhydd o bob deunydd estron – cerrig, fflintiau, graean ac ati - a rhaid ei fod yn gallu amsugno'r swm cywir o ddŵr. Pan ddefnyddir tywod yn arwyneb caiff ei lyfnu'n fecanyddol neu â llaw ar ôl pob tair ras.

2.5 Trapiau cychwyn

Rhaid i drapiau cychwyn, rhai lefel ac anfantais, fod o gynllun a safon sy'n debyg i safonau NGRC gyda darpariaeth ar gyfer cychwyn awtomatig. Os yw'r trapiau wedi'u gosod yn barhaol, rhaid bod digonedd o fynediad i'r cefn er mwyn rhoi'r milgwn yn eu bylchau yn hawdd.

2.6 Mwseli

Bydd pob ci'n gwisgo mwsel addas wrth rasio neu dreialu os yw mwy nag un ci'n rasio, os yw mewn cenel neu'n cael ei gludo gyda chi arall.

2.7 Presenoldeb milfeddyg ar y traciau

Mae Fforwm Milgwn Cymru'n parhau'n unfrydol eu barn bod presenoldeb milfeddyg yn y traciau yn gam cadarnhaol ymlaen am resymau lles ac ymarferol. Fodd bynnag, mae cynrychiolwyr y ddau drac yn credu bod presenoldeb milfeddyg gorfodol yn waharddol o ddrud ac y bydd yn peryglu busnes yn y tymor hir. Er bod cynrychiolwyr lles y Fforwm yn parhau'n argyhoeddedig fod deddfwriaeth yn hanfodol i sicrhau presenoldeb milfeddyg ym mhob cyfarfod ras, byddai'r traciau'n gofyn ystyried cyfnod arbrawf, neu gyfnod cyflwyno'n raddol, os gallant ddangos bod contract addas eisoes yn bodoli â milfeddyg ar alwad o fewn pellter teithio rhesymol i'r trac.

Rhaid bod milfeddyg cymwys yn bresennol ym mhob ras milgwn ac mewn treialon pryd bynnag y bydd mwy nag un milgi'n rhedeg ar y trac ar yr un pryd.

Nid yw "trefniant ar alwad" yn dderbyniol.

Bydd y trac yn talu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â sicrhau presenoldeb milfeddyg.

2.8 Rôl y milfeddyg

Bydd y milfeddyg yn mynychu cyfarfodydd ras i drin unrhyw gŵn sy'n dioddef anaf neu unrhyw gŵn y mae'n ystyried bod angen sylw milfeddyg arnynt.

Y milfeddyg fydd yn penderfynu yn y pen draw a yw ci unigol yn ddigon iach i rasio.

Bydd y milfeddyg yn cadw cofnod o bob anaf i filgwn ar y trac. Bydd hyn yn cynnwys manylion am natur yr anaf, ymhle ar y trac y digwyddodd, yr amser y digwyddodd ac unrhyw amgylchiadau a allai fod wedi cyfrannu at yr anaf ym marn y milfeddyg. Bydd y cofnod yn cynnwys manylion y milgi a'i berchennog/hyfforddwr.

Bydd y milfeddyg yn cadw cofnod o unrhyw driniaeth arall y mae'n ei rhoi i filgwn ar y trac, y rheswm am y driniaeth a manylion y milgi a'r perchennog/hyfforddwr.

Bydd gan y milfeddyg y pŵer i roi terfyn ar y cyfarfod ras ar unrhyw adeg pe byddai parhau â'r cyfarfod, yn ei farn broffesiynol, yn arwain at risg annerbyniol o uchel o anafiadau i'r cŵn.

Bydd gan y milfeddyg y pŵer i arolygu trwyddedau perchenogion/hyfforddwyr.

Bydd gan y milfeddyg y pŵer i archwilio unrhyw filgi sy'n mynychu'r cyfarfod fel y gwêl yn addas (gan gynnwys y rheini a gedwir yng ngherbydau perchennog/hyfforddwyr ar y trac neu ger y trac cyn neu ar ôl rasio), ac argymhell triniaeth briodol ac/neu atal y milgi rhag rasio.

Os yw unrhyw filfeddyg yn credu bod angen dinistrio milgi, neu fod angen llawdriniaeth frys ar filgi y mae perchennog/hyfforddwr trwyddedig yn gyfrifol amdano, mae hawl gan y milfeddyg fwrw ymlaen â dinistrio neu roi llawdriniaeth o'r fath heb ganiatâd y perchennog.

Bydd y perchennog/hyfforddwr yn talu cost unrhyw driniaeth a roddir i filgwn gan y milfeddyg.

Bydd perchennog y trac yn cydweithredu â'r milfeddyg er mwyn iddo gyflawni ei waith.

Os bydd unrhyw un yn gwrthod caniatáu i'r milfeddyg drin milgi neu'n rhwystro'r milfeddyg mewn unrhyw ffordd rhag gwneud ei waith, bydd y milfeddyg yn rhoi gwybod am hyn ar unwaith i berchennog neu reolwr y trac ac i'r awdurdod trwyddedu cyn gynted â phosibl.

2.9 Cyfleusterau milfeddygol

Rhaid bod ystafell cymorth cyntaf ddigonol y gellir ei chloi, allan o olwg a chlyw'r cyhoedd os yw'n bosibl, er mwyn i filfeddyg y trac archwilio milgwn neu roi triniaeth i filgwn wedi'u hanafu. Fel arall, gellir defnyddio cyfleuster symudol cyhyd â'i fod yn bodloni'r manylebau yn yr adran hon.

Dylai'r cyfleuster gynnwys bwrdd archwilio sy'n ddigon mawr i ddal milgi sy'n gorwedd i lawr ac sydd ag wyneb nad yw'n llithrig ac sy'n hawdd ei lanhau. Mae golau da uwchben y bwrdd hwn yn hanfodol. Rhaid darparu sinc a bwrdd diferu â dŵr poeth ac oer sy'n rhedeg. Rhaid darparu gwres yn yr ystafell.

Ni cheir cadw cyffuriau ar safle'r trac oni fydd y milfeddyg yno. Mae'r milfeddyg yn gyfrifol am gadw'r holl gyffuriau a meddyginiaethau yn ddiogel.

Bydd perchennog y Trac yn gyfrifol am gadw ystafell barhaol yn lân a thaclus a chynnal a chadw'r holl osodiadau, dodrefn ac offer mewn cyflwr gweithiol addas.

Bydd y milfeddyg yn gyfrifol am gadw cyfleuster symudol yn lân a thaclus a chynnal a chadw'r holl osodiadau, dodrefn ac offer mewn cyflwr gweithiol addas, oni bai bod y cyfleuster symudol yn eiddo i'r trac ac os felly bydd perchennog y Trac yn gyfrifol amdano.

Bydd y Milfeddyg yn gyfrifol am ddarparu'r holl offer, meddyginiaeth, gorchuddion ac ati sydd eu hangen i drin milgwn. Bydd y trac yn gyfrifol am dalu am y rhain.

Bydd y milfeddyg yn gyfrifol am waredu'r holl nodwyddau a gwydr a gwastraff llawfeddygol.

Canllawiau pellach:

Cynghorir y trac i ddarparu'r canlynol yn yr ystafell driniaeth:

- Oergell fach ar gyfer storio rhai meddyginiaethau a gorchuddion (yn ystod rasys yn unig)
- Ffôn neu gyswllt radio â swyddogion y ras
- Seinydd wedi'i gysylltu â'r system annerch gyhoeddus.
- Monitor wedi'i gysylltu â system cylch cyfyng y trac (os oes un ar gael) er mwyn i'r Milfeddyg ailwyllo rasys i helpu asesu achos a thriniaeth anaf.

2.10 Mynediad ar gyfer arolygu

Bydd pob trac yn caniatáu mynediad am ddim i safleoedd cwrs ras i arolygwyr a benodir gan yr awdurdod trwyddedu dros Gymru, ac yn cydweithredu'n llawn â hwy i fonitro a helpu sicrhau y rhoir y rheoliadau hyn ar waith.

3. Trwydded Cenedl

Rhaid bod trwydded cenedl gyfredol gan unrhyw safle sy'n cadw pum milgi rasio neu fwy ac mae'n rhaid adnewyddu'r drwydded hon bob blwyddyn. At ddibenion y rheoliadau hyn, milgi rasio yw milgi a gofnodwyd yn filgi rasio yn y gronfa ddata.

Dim ond os yw'n fodlon bod y cenedlau yn darparu llety addas i'r milgwn rasio a gedwir yno y bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi neu'n adnewyddu'r drwydded cenedl.

Mae Fforwm Milgwn Cymru yn croesawu sefyllfaoedd lle bo perchennogion milgwn rasio yn cadw eu cŵn yn eu cartref eu hunain ac ystyrir gan amlaf fod llety o'r fath yn addas.

Gall yr awdurdod trwyddedu fynnu bod gwaith penodol yn cael ei wneud dros gyfnod rhesymol i ddod â safleoedd presennol i'r safon ddymunol. Mewn achosion o'r fath, gellir rhoi trwydded yn amodol ar gwblhau'r gwaith hwn erbyn y dyddiad y cytunwyd arno. Dylid galw hon yn Drwydded Amodol a dim ond os bodlonir yr amserlen ar gyfer gwelliannau y bydd yn parhau'n berthnasol.

Wrth drefnu a yw llety'n addas ai peidio, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried y "Canllawiau arfer gorau ar gyfer cenedlau", a nodir yn y "Siarter ar gyfer y Milgi Rasio" a luniwyd gan Fforwm Milgwn y DU ac a atodir i'r ddogfen hon yn Atodiad B, gyda'r amodau canlynol:

Amodau

- Bod Paragraff 21 (newidiadau wedi'u tanlinellu) yn darllen: "Yn ystod golau dydd, rhaid sicrhau bod golau naturiol yn y mannau ymarfer a chysgu er mwyn gweld pob rhan yn glir".
- Bod Paragraff 25 (newidiadau wedi'u tanlinellu) yn darllen: "Ni chaiff unrhyw anifeiliaid heblaw milgwn letya yn y cyfleusterau heb gymeradwyaeth ysgrifenedig yr awdurdod trwyddedu".
- Yn ogystal, gellir teimlo bod rhai rhannau o'r cod ymarfer yn briodol i genelau mwy yn unig fel y rheini sy'n cadw 10 ci neu fwy, tra bydd angen gwaith dehongli neu addasu ar eraill. Dyma enghreifftiau o faterion sy'n codi yn hyn o beth:
 - Paragraffau 43-46 (cyfleusterau cegin): O ran cenedlau llai sy'n cadw 9 ci neu lai, os yw'r cenedlau hyn yng ngardd neu fuarth cartrefi'r perchennog/hyfforddwr, dylai cyfleusterau storio ac oeri fod ar gael beth bynnag ond gellir teimlo ei bod yn dderbyniol i'r rhain fod yng nghartref y perchennog/hyfforddwr. O ran cenedlau mwy sy'n cadw 10 ci neu fwy ac os yw cenedlau llai yn fwy na 30 metr o gartref y perchennog/hyfforddwr fodd bynnag, gellir teimlo bod angen darparu cyfleusterau storio, coginio ac oeri addas yn y cenedl.
 - Paragraff 49 (marcio cenedlau): gellir teimlo nad oes angen rhifo na marcio cenedlau os nad ydynt yn cadw mwy na 10 ci.

Mae angen ystyried ymhellach sut y dylid cymhwyso'r canllawiau cenedlau cŵn i genelau o wahanol faint.

4. Trwydded Perchennog/Hyfforddwr

4.1 Amodau'r drwydded

Rhaid bod trwydded perchennog/hyfforddwr gyfredol gan perchennog/hyfforddwr pob milgi sy'n rasio yng Nghymru.

Ar ddechrau'r system reoleiddio, gwneir ceisiadau am drwyddedau perchennog/hyfforddwr yn ôl-weithredol h.y. gan berchenogion/hyfforddwyr sydd eisoes yn berchen ar filgwn rasio. Ar ôl sefydlu'r system reoleiddio, bydd yn ddoeth i berchenogion/hyfforddwyr newydd ymgeisio am drwydded cyn eu bod yn berchen ar filgi rasio.

Rhaid cyflwyno trwydded perchennog/hyfforddwr bob tro y bydd y perchennog/hyfforddwr yn rasio milgi ar Drac yng Nghymru.

Bydd perchennog/hyfforddwr milgi yn rhoi ei enw a'i gyfeiriad gwirioneddol, ynghyd â manylion llinell ffôn sefydlog*, llinell ffôn symudol* ac e-bost* (*os yw'r rhain yn bodoli). Rhaid gwirio enw a chyfeiriad y perchennog/hyfforddwr gyda phasbort, trwydded yrru ffotograff, neu ddau fil cyfleustod/mantolen ddiweddar.

Rhaid i'r perchennog/hyfforddwr ddarparu dau ffotograff maint pasbort diweddar. Caiff un ohonynt ei osod ar y drwydded ac anfonir y llall at Fforwm Milgwn Cymru.

Caiff y drwydded ei diweddarau bob tro y bydd perchennog/hyfforddwr yn cael milgi newydd (o'i ymddangosiad cyntaf ar drac ar gyfer treialu neu rasio) neu'n cael gwared ar filgi sydd ganddo eisoes, neu os bydd milgi'n newid ei olwg. Caiff y drwydded ei hadnewyddu bob 5 mlynedd oni chaiff ei gwahardd neu ddiddymu gan yr awdurdod trwyddedu neu oni fydd y perchennog/hyfforddwr yn ei hildio.

Mae perchennog/hyfforddwr milgi yn gyfrifol am gadw'r wybodaeth hon yn ddiweddar drwy roi gwybod i Reolwr Trac Cymru neu'r Awdurdod Trwyddedu Cymru am unrhyw newidiadau.

4.2 Cydymffurfio â chyngor milfeddyg

Bydd y perchennog neu hyfforddwr yn cydymffurfio ag unrhyw gyngor a roddir gan filfeddyg cymwys sy'n bresennol mewn cyfarfod ras neu'n cynnal archwiliad yn ei safle.

4.3 Cydweithrediad ag arolygwyr

Bydd y perchennog neu hyfforddwr yn cydweithredu'n llawn â swyddogion lles ac arolygwyr ac yn rhoi mynediad rhesymol iddynt i'w eiddo, cerbydau neu gofnodion er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau o dan y rheoliadau hyn.

Ni fydd y perchennog/hyfforddwr yn celu unrhyw wybodaeth y bydd swyddog lles neu arolygwr yn gofyn amdani.

4.4 Manylion y Milgwn y mae'r Perchennog/Hyfforddwr yn berchen arnynt/yn eu hyfforddi

Rhaid rhestru pob milgi sy'n rasio neu'n treialu ac y mae'r Perchennog/Hyfforddwr yn berchen arno neu'n ei hyfforddi, gan gynnwys rhif microsglodyn ar drwydded y perchennog/hyfforddwr. Rhaid i'r perchennog/hyfforddwr gyflwyno'r drwydded bob tro y bydd y milgi'n rasio.

Mae perchennog/hyfforddwr y milgi yn gyfrifol am roi gwybod i'r awdurdod trwyddedu dros Gymru (naill ai'n uniongyrchol neu drwy Reolwr Trac) drwy lenwi a dychwelyd ffurflen newid perchenogaeth/mabwysiadu, os bydd yn gwerthu neu'n cael gwared ar filgi.

4.5 Trosglwyddo perchenogaeth

Os bydd perchennog/hyfforddwr yn gwerthu neu'n cael gwared ar filgi i rywun arall sy'n byw yng Nghymru neu'r tu hwnt, gyda'r bwriad y bydd y milgi'n parhau i rasio, rhaid i'r perchennog/hyfforddwr lenwi ffurflen trosglwyddo perchenogaeth. Pan fydd milgi'n ymddeol o rasio rhaid i berchennog/hyfforddwr lenwi ffurflen "tynged derfynol" sy'n disgrifio pa un o'r trefniadau derbyniol a wnaed ar gyfer y milgi. Bydd y perchennog/hyfforddwr yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl fanylion yn gywir, gan gynnwys enw, cyfeiriad a manylion cyswllt y perchennog newydd.

4.6 Cyfrifoldeb y perchennog/hyfforddwr

Mae perchennog/hyfforddwr milgi'n gyfrifol am les milgi a hefyd am wneud trefniadau derbyniol ar gyfer ei filgi wedi iddo ymddeol fel a ganlyn.

- (i) Cadw'r milgi yn anifail anwes. Os felly, bydd y perchennog/hyfforddwr yn llenwi ffurflen fabwysiadu a gymeradwywyd neu a gyhoeddwyd gan Fforwm Milgwn Cymru ac yn dychwelyd hon i Fforwm Milgwn Cymru.
- (ii) Trosglwyddo'r milgi i gymdeithas les gyfrifol a gymeradwywyd gan Fforwm Milgwn Cymru. Os felly, bydd y perchennog/hyfforddwr yn llenwi ffurflen trosglwyddo perchenogaeth a gymeradwywyd neu a gyhoeddwyd gan Fforwm Milgwn Cymru ac yn dychwelyd hon i Fforwm Milgwn Cymru.
- (iii) Y perchennog/hyfforddwr yn canfod cartref fel anifail anwes i'r milgi. Os felly, bydd angen i'r perchennog/hyfforddwr ddangos ei fod wedi dilyn canllawiau arfer da fel y rhai y gallai Fforwm Milgwn Cymru eu cyhoeddi. Bydd hefyd yn sicrhau bod y perchennog newydd yn llenwi ffurflen fabwysiadu a gymeradwywyd neu a gyhoeddwyd gan Fforwm Milgwn Cymru a bydd yn gyfrifol am ddychwelyd y ffurflen i'r Fforwm a sicrhau bod y manylion a roddir gan y perchennog newydd yn gywir.
- (iv) Ewthanasia'r milgi gan filfeddyg cymwys. Os felly bydd angen i'r perchennog/hyfforddwr ddangos ei fod wedi ymdrechu i ddilyn a, b neu c uchod a rhoi rhesymau pam na fu'n bosibl gwneud hynny drwy lenwi'r ffurflen briodol a gyhoeddir gan Fforwm Milgwn Cymru. Rhaid hefyd i'r ffurflen hon gael ei gwirio a'i llofnodi gan y milfeddyg sy'n cynnal yr ewthanasia. Rhaid i'r perchennog/hyfforddwr ddychwelyd y ffurflen wedi'i llenwi a'i llofnodi gan y perchennog/hyfforddwr a'r milfeddyg i Fforwm Milgwn Cymru.

5. Cludo

5.1 Milgwn a gedwir mewn cerbydau mewn digwyddiadau ras.

Nid yw'r rheoliadau hyn yn mynnu bod traciau'n darparu cenel i filgwn sy'n mynychu cyfarfodydd ras. Bydd y rhan fwyaf o filgwn felly'n cael eu cadw mewn cerbydau perchennogion/hyfforddwyr am beth amser mewn digwyddiadau ras. Mae'n benodol bwysig felly cadw at y rheoliadau hyn pan fydd milgwn mewn cerbydau llonydd yn ogystal ag adegau eu cludo.

5.2 Oeri ar ôl rasio

Ni cheir llwytho milgwn i mewn i gerbydau nes eu bod wedi oeri'n addas, ac mae'n rhaid cynnig dŵr iddynt cyn cael eu llwytho.

5.3 Tymheredd Rhesymol

Tra bo'r Milgi yn cael ei ddal/cludo, dylid cadw tymheredd y cerbyd rhwng 10°C a 22°C.

5.4 Digon o le mewn cerbyd

Dylai cawell i ddal milgi fod yn ddigon mawr i warchod lles y milgi.

Mae'r grwpiau lles ar y Fforwm yn credu hefyd y dylai'r cawell ganiatáu i'r milgi sefyll yn llawn a gorwedd yn gyffyrddus, ac y dylid ei adeiladu mewn modd nad yw'n achosi unrhyw niwed i'r ci.

5.5 Ffrwyno wrth gludo

Rhaid ffrwyno milgwn tra byddant yn cael eu cludo. Gellir gwneud hyn naill ai drwy harnais wedi'i glymu'n briodol os yw'n teithio yng nghefn car, drwy ddefnyddio gard ci diogel mewn car stad, neu mewn cewyll wedi'u clymu'n dynn i'r cerbyd, neu mewn trelar neu gerbyd pwrpasol.

5.6 Cadw llygad ar gerbydau llonydd

Cyfrifoldeb y perchennog/hyfforddwr yw sicrhau y cedwir golwg yn ddigon aml ar filgwn sy'n cael eu cadw mewn cerbydau mewn cyfarfodydd ras i sicrhau y bodlonir yr holl reoliadau uchod.

5.7 Cadw llygad ar gŵn yn ystod y daith

Cyfrifoldeb y perchennog/hyfforddwr yw sicrhau y cedwir golwg yn ddigon aml ar filgwn sydd ar daith ond nad ydynt yn yr un lle â gyrrwr y cerbyd.

ATODIAD A

Engbreiffiau o'r drwydded Perchennog/Hyfforddwr a'r ffurflenni olrhain cysylltiedig a awgrymir

Sylwch: Mae Fforwm Milgwn Cymru yn sylweddoli bod Cymdeithas Milfeddygon Milgwn wrthi'n ymchwilio i fanteision gwahanol ddulliau o sicrhau y gellir olrhain milgwn. Efallai y bydd canfyddiadau'r ymchwil yn awgrymu newidiadau i'r system a'r ffurflenni sydd yn yr atodiad hwn.

Rhif Trwydded Perchennog/Hyfforddwr

Cofrestru Trwydded Perchennog/Hyfforddwr Traciau Milgwn Cymru

RHAID NODI'R HOLL FANYLION YN LLAWN

Enw cyntaf..... Cyfenw

Cyfeiriad Cartref.....

Cod Post

Cyfeiriad y cwt cŵn/lle cedwir y cŵn (os yw'n wahanol i'r uchod)

Cod Post

Rhif Ffôn Cartref (gan gynnwys cod) Rhif Symudol neu Ail Rif

Datganiad gan y perchennog: Cadarnhaf mai fi yw'r sawl a enwir uchod a bod yr holl fanylion amdanaf yn gywir. Derbyniaf gyfrifoldeb llawn am y milgwn o dan fy ngofal yn unol â'r Rheoliadau. Cadarnhaf fy mod wedi cael copi o'r Rheoliadau a fy mod yn deall ac yn cytuno i gadw at bopeth sy'n cael ei gynnwys ynddynt. Cytunaf i ddiweddarau'r manylion hyn gyda rheolwr trac yng Nghymru os bydd unrhyw newidiadau.

Llofnod Dyddiad.....

Datganiad gan y cofrestrydd: Cadarnhaf fod y 2 ffotograff a ddarperir yn bortread da o'r sawl a enwir uchod. Rwyf wedi cael yr eitemau canlynol yn brawf adnabod (ticiwch un):

☐ Trwydded yrru (cerdyn ffotograff a chopi papur). Rhif y drwydded.....

☐ Pasbort DU dilys. Rhif y pasbort

☐ 2 fil cyfleustod yn dangos yr enw a'r cyfeiriad uchod.

Nodwch yma pa filiau ydynt/o ba gwmni y daethant a

nodwch y rhifau cyfeirnod/rhifau cyfrif sy'n gysylltiedig â'r biliau hyn.....

Llofnod – cofrestrydd..... Enw..... Dyddiad.....

Milgwn sydd o dan ofal y perchennog/hyfforddwr a enwir uchod ar y dyddiad:

Enw rasio	Enw anwes	Rhyw	Dyddiad Geni/Oedran adeg cofrestru	Rhif Microsglodyn	Clustnodau	Disgrifiad

Rhif Trwydded Perchennog/Hyfforddwr

**Newid Perchenogaeth ar Filgwn
Traciau Milgwn Cymru**

RHAID NODI'R HOLL FANYLION YN LLAWN

RHAID I'R PERCHENNOG CYFREDOL LENWI'R ADRAN HON

Enw cyntaf..... Cyfenw

Cyfeiriad Cartref.....

..... Cod Post

Rhif Ffôn Cartref (gan gynnwys cod) Rhif Symudol neu Ail Rif

Clustnodau'r Milgi..... Rhif Microsglodyn y Milgi

Enw Rasio..... Enw Anwes

Rhyw'r Milgi Dyddiad Geni neu'r Oedran yn fras adeg cofrestru

Lliw Nodweddion amlwg/gwahaniaethol

(Sylwch – yn fersiwn derfynol y ffurflen, gall y rhan hon fod yn ddisgrifiad neu'n ddiagram – penderfynir ar y manylion yn sgil ymchwil gan Gymdeithas Milfeddygon Milgwn ar adnabod milgwn.)

Datganiad gan y perchennog cyfredol: Cadarnhaf mai fi yw perchennog cyfredol y milgi a ddisgrifir uchod a bod yr holl fanylion yn gywir. Deallaf fod y berchenogaeth ar y milgi a'r cyfrifoldeb llawn amdano wedi'u trosglwyddo bellach i'r perchennog newydd.

Llofnod Dyddiad.....

Llofnod – cofrestrydd..... Enw..... Dyddiad.....

RHAID I'R PERCHENNOG NEWYDD LENWI'R ADRAN HON

Enw cyntaf..... Cyfenw

Cyfeiriad Cartref.....

..... Cod Post

Rhif Ffôn Cartref (gan gynnwys cod) Rhif Symudol neu Ail Rif

Datganiad gan y perchennog newydd: Cadarnhaf mai fi yw perchennog newydd y milgi a ddisgrifir uchod a bod yr holl fanylion yn gywir. Deallaf fod y berchenogaeth ar y milgi a'r cyfrifoldeb llawn amdano wedi'u trosglwyddo i mi o ddiwrnod y datganiad hwn. Cytunaf i ddiweddarau'r cofnodion hyn gyda rheolwr trac yng Nghymru neu awdurdod trwyddedu Cymru os bydd unrhyw newidiadau'n digwydd yn unol â'r Rheoliadau. Cytunaf i gwblhau'r cofnod 'newid perchennogaeth' os bydd perchennogaeth y milgi a ddisgrifir uchod yn newid. Rwyf wedi cael y Rheoliadau ac yn deall ac yn cytuno i gadw at bopeth sydd ynddynt.

Llofnod Dyddiad.....

Llofnod – cofrestrydd..... Enw..... Dyddiad.....

Rhif Trwydded Perchennog/Hyfforddwr

Tynged Derfynol Traciau Milgwn Cymru

RHAID NODI'R HOLL FANYLION YN LLAWN

Enw cyntaf..... Cyfenw

Cyfeiriad Cartref.....

..... Cod Post

Rhif Ffôn Cartref (gan gynnwys cod)..... Rhif Symudol neu Ail Rif

Clustnodau'r Milgi..... Rhif Microsglodyn y Milgi

Enw Rasio..... Enw Anwes

Rhyw'r Milgi..... Dyddiad Geni neu'r Oedran yn fras adeg cofrestru

Lliw..... Nodweddion amlwg/gwahaniaethol

(Sylwch: yn fersiwn derfynol y ffurflen gall hyn fod yn ddisgrifiad neu'n ddiagram – penderfynir ar y manylion yn sgil ymchwil i gan Gymdeithas Milfeddygon Milgwn ar adnabod milgwn.)

Tynged Derfynol – ticiwch A, B, C, D, neu E, a chwblhewch y manylion yn yr adran honno

- ☐ A) Mae'r ci'n cael ei gadw fel anifail anwes gan y perchennog (os yw'n cael cartref newydd gyda rhywun arall, mae angen ffurflen 'newid perchenogaeth')

Deallaf fy mod yn parhau yn gyfan gwbl gyfrifol am les y ci (yn unol â'r Rheoliadau). Deallaf y gellir galw arnaf unrhyw bryd i gyflwyno'r ci ac y byddai rhaid imi wneud hynny ar unwaith. Cytunaf i roi gwybod i'r cofrestrydd os bydd y sefyllfa hon yn newid a chwblhau'r gwaith papur perthnasol yn unol â'r Rheoliadau.

- ☐ B) Mae'r ci wedi cael cartref newydd mewn cymdeithas achub

Enw'r gymdeithas achub.....

Enw'r gymdeithas achub y rhoddwyd y ci iddi.....

Dyddiad trosglwyddo'r ci.....

RHAID AMGÁU DERBYNNEB DROSGLWYDDO SWYDDOGOL Y GYMDEITHAS ACHUB I DDILYSU'R OPSIWN HWN – RHAID I HYN GYNNWYS DISGRIFIAD MANWL O'R CI GAN GYNNWYS RHIF MICROSGLODYN/CLUSTNODAU.

- ☐ C) Mae'r perchennog wedi rhoi'r ci mewn cartref newydd yn anifail anwes i rywun arall

Rwyf wedi dilyn canllawiau arfer da Fforwm Milgwn Cymru o ran cael cartref newydd i filgi ac rwyf yn fodlon y bydd y perchennog yn cynnig cartref da i'r milgi yn anifail anwes. Atodaf ffurflen fabwysiadu wedi'i llenwi a gymeradwywyd gan Fforwm Milgwn Cymru a thystiaf fod y manylion ar y ffurflen hon yn gywir hyd y gwn i. (parhad)

☐ D) Ewthanasia gan filfeddyg

Datganiad gan y perchennog eu bod wedi cysylltu ag o leiaf 5 cymdeithas achub ond nad oedd yr un ohonynt yn gallu cymryd y ci ar unrhyw adeg.

- | | | |
|---------------------------|----------------------|------------------------|
| 1) Enw'r gymdeithas | Person cyswllt | Dyddiad yr alwad |
| 2) Enw'r gymdeithas | Person cyswllt | Dyddiad yr alwad |
| 3) Enw'r gymdeithas | Person cyswllt | Dyddiad yr alwad |
| 4) Enw'r gymdeithas | Person cyswllt | Dyddiad yr alwad |
| 5) Enw'r gymdeithas | Person cyswllt | Dyddiad yr alwad |

RHAID AMGÁU DERBYNNEB Y WEITHDREFN EWTHANASIA WEDI'I STAMPIO GAN FILFEDDYG I DDILYSU'R OPSIWN HWN
– RHAID I HYN GYNNWYS DISGRIFIAD MANWL O'R CI GAN GYNNWYS RHIF MICROSGLODYN/CLUSTNODAU,

☐ E) Marwolaeth Sydyn

RHAID AMGÁU DERBYNNEB ARCHWILIAD ÔL-FARWOLAETH WEDI'I STAMPIO GAN FILFEDDYG I DDILYSU'R OPSIWN HWN
– RHAID CYNNWYS DISGRIFIAD MANWL O'R CI GAN GYNNWYS RHIF MICROSGLODYN/CLUSTNODAU.

Datganiad gan y perchennog

Cadarnhaf mai fi yw perchennog y milgi a bod y dynged a ddisgrifir uchod a'r holl fanylion yn gywir.

Llofnod Dyddiad.....

Cofrestrydd – mae pob derbynneb sy'n amgaeedig yn gywir yn ôl y llyfr rheolau.

Llofnod – cofrestrydd Enw Dyddiad.....

ATODIAD B

Canllawiau Arfer Da – Cenedl Cŵn

Noder ein bod wedi cymryd y canllawiau hyn o Fforwm Milgwn y DU (a'u diwygio ychydig) – ac o'r herwydd maent yn cynnig safbwynt cynhwysfawr, ond anghyflawn efallai, ynghylch cenedl cŵn

Adeiladwaith

Cyffredinol

1. Dylai'r sefydliad ar bob adeg fod wedi'i drefnu ac yn cael ei weithredu yn unol â chynllun cymeradwy, a rhaid cyflwyno'r cynlluniau i'w cymeradwyo gan y swyddog trwyddedu.
Efallai na fydd rhai safleoedd sy'n bodoli eisoes yn cydymffurfio â'r gofynion hyn. Os felly, dylai gwneud y gwelliannau, a chael amserlenni clir ar gyfer gwneud y gwaith, fod yn amod cael trwydded.
2. Os defnyddiwyd pren yn yr adeiladwaith sydd yno ar hyn o bryd, rhaid iddo fod yn llyfn ac wedi'i drin i'w wneud yn anhydraidd. Ni ddylid defnyddio pren yn y rhannau hynny o'r adeiladwaith sy'n agored, megis waliau, lloriau, parwydydd, fframiau drws na drysau lle mae'r cŵn. Rhaid sicrhau nad oes unrhyw bigynau a allai achosi anaf.
Pwrpas y safonau hyn yw sicrhau amodau lles ffafriol i gŵn. I'r perwyl hwn, rhaid i'r cytiau cŵn gael eu cynnal a'u cadw'n briodol, a bod yn lân. Mae'r amodau'n sicrhau y gwneir hyn.
3. Rhaid i ddeunydd ffensio fod yn ddiogel ac yn saff.
Yn gyffredinol, dylid osgoi pren oherwydd gall fod yn anodd ei lanhau'n ddigonol ac mae'n feichus o ran cynnal a chadw. Hefyd mae pren sydd wedi treulio neu dorri yn gallu bod yn beryglus i gŵn ac yn anodd ei lanhau.
4. Rhaid i'r manau lle mae'r cŵn yn cysgu fod wedi'u hinswleiddio er mwyn atal eithafion yn y tymheredd.
Os defnyddir rhwyll wifrog alfanedig ar gyfer ffensys, rhaid i ddiamedr y gwifrau fod yn o leiaf 2.0mm (14SWG) ac eithrio unrhyw orchudd ac ni chaiff maint y rhwyll fod yn fwy na 50mm (2").
5. Rhaid i'r adeiladwaith fod wedi'i adeiladu yn y fath fodd ag i sicrhau diogelwch y cŵn.
Dylai'r amodau gael eu hategu gan gynllun glanweithdra a diogelwch er mwyn gwarchod lles y cŵn a darparu amgylchedd gwaith diogel i staff.
6. Rhaid trin yr holl bren allanol yn briodol i atal pydredd pren, e.e. Tanalised.
7. Rhaid i bob arwyneb y tu mewn a ddefnyddir i adeiladu waliau, lloriau, parwydydd, drysau a fframiau drws fod yn gadarn, llyfn ac anhydraidd. Mae'n rhaid sicrhau nad oes unrhyw bigynau nac ymylon garw a allai achosi anaf.

Waliau a Pharwydydd

8. Rhaid i waliau a ddaw i gysylltiad â chŵn fod o ddeunyddiau anhydraidd llyfn, ac yn rhai sy'n hawdd eu glanhau. Os defnyddir concrit neu flociau neu frics adeiladu eraill mewn waliau o'r fath, rhaid eu selio er mwyn iddynt fod yn llyfn ac yn anhydraidd, a'u hailselio yn ôl yr angen.
Deunyddiau addas ar gyfer adeiladu waliau fyddai: blociau concrit, brics, plastig mowld, gwydr plastig cyfnerth ac astell (board) ag wyneb plastig wedi'i ragffurfio. Os defnyddir blociau neu frics, rhaid gwneud yr wyneb yn anhydraidd drwy ddefnyddio deunydd selio gwrth-ddŵr priodol er mwyn selio'r wal i atal lleithder rhag treiddio. O dan rai amgylchiadau, gellir gwneud hyn drwy rendro cyn selio.
9. Dylid gorchuddio'r cyswllt rhwng rhannau fertigol a llorweddol. Os yw hynny'n anymarferol yn y safle presennol, yna rhaid selio pob cymal.
10. Dylai'r pared rhwng cŵn ganiatáu rhywfaint o gysylltiad cymdeithasol ond ar yr un pryd atal unrhyw anaf o ymddygiad ymosodol posibl. Mae'n bosibl mai defnyddio rhwyll wifrog yw'r ffordd orau o gyflawni hyn.

Lloriau

11. Rhaid i lawr pob adeilad, pob lle ymarfer unigol a phob cwt ci fod wedi'u gwneud o ddeunyddiau llyfn, anhydraidd sy'n hawdd i'w glanhau. Mewn cwt newydd rhaid cynnwys pilen atal lleithder.
Dylid adeiladu lloriau cytiau cŵn a manau ymarfer sy'n gysylltiedig â hwy â deunydd anhydraidd. Rhaid bod modd eu glanhau ond dylent hefyd roi digon o afael i'r ci gerdded a rhedeg heb gael ei anafu.

Cyflwyniad i Lywodraeth Cynulliad Cymru

12. Rhaid i lawr pob cwt a lle ymarfer unigol gael eu hadeiladu a'u cynnal a'u cadw mewn modd sy'n atal unrhyw ddŵr neu hylif arall rhag cronni.
13. Mewn adeiladwaith newydd, rhaid gosod lloriau i gwmp sydd o leiaf 1 mewn 80, gan redeg i sianel ddraeniad fas neu sianel ddraeniad ddofn wedi'i gorchuddio'n effeithiol.
14. Rhaid draenio mannau ymarfer cymunedol yn addas ond nid oes angen iddynt gydymffurfio ag amodau 11 a 12.

Nenfwd

15. Rhaid bod modd glanhau pob nenfwd yn hawdd.

Drysau

16. Rhaid bod drysau'r cytiau cŵn yn ddigon cryf i wrthsefyll gael eu taro a'u crafu a rhaid eu gosod mewn ffordd y gellir eu cloi'n ddiogel.
17. Os defnyddir bariau a fframiau metel, rhaid eu bod o drwch addas (tua 10-14 SWG) gyda'r bylchau yn briodol er mwyn atal cŵn rhag dianc neu fynd yn sownd ynddynt. Os defnyddir ymylon metel, mae'n rhaid sicrhau nad yw hyn yn peri unrhyw risg o anafiadau i'r ci.
18. Wrth adeiladu agoriadau drws, rhaid iddynt beidio ag atal dŵr/gwastraff rhag mynd heibio, na chaniatáu i ddŵr/gwastraff gasglu oherwydd nad oes modd iddynt fynd oddi yno.

Ffenestri

19. Rhaid sicrhau bod pob ffenestr, sy'n risg diogelwch posibl, yn atal cŵn rhag dianc.

Draeniad

20. Rhaid i'r sefydliad fod wedi'i gysylltu â phrif ddraeniad neu system gwaredu carthion gymeradwy, leol.

Golau

21. Yn ystod golau dydd, rhaid sicrhau bod golau yn y mannau ymarfer a chysgu fel bod modd gweld pob rhan yn glir. Os yw'n bosibl, dylai hwn fod yn olau naturiol.
22. Rhaid darparu digon o oleuadau ychwanegol drwy'r sefydliad.

Awyru

23. Rhaid awyru pob man sydd dan do heb greu drafftiau gormodol, lleol yn y rhannau lle mae'r cŵn yn cysgu.

Cynnal a chadw

24. Rhaid cynnal a chadw ac atgyweirio'r sefydliad cyfan yn rheolaidd.

Cŵn a ganiateir

25. Ni chaiff unrhyw anifeiliaid heblaw milgwn letya yn y cyfleusterau.

Dylid darparu sianeli draenio wrth ymyl y cwt ci er mwyn atal yr wrin rhag llifo i fannau cerdded mewn coridorau ac i lefydd ymarfer cymunedol. Rhesymol fyddai draenio'r rhan cysgu i ffwrdd oddi wrth y man ymarfer os darperir sianeli draenio ar wahân.

Os defnyddir rhwyll wifrog alfanedig ar gyfer drysau, ni chaiff ddiamedr y wifr fod yn llai na 2.0 mm (14SWG) ac eithrio unrhyw orchudd ac ni chaiff maint y rhwyll fod yn fwy na 50mm (2").

Wrth gynllunio drysau cwt ci, dylid ystyried iechyd a diogelwch y bobl sy'n gweithio ynddo. Mae'n haws i staff fynd i mewn ac allan os bydd y drws yn agor tuag i mewn.

Rhaid adeiladu ffenestri naill ai o wydr cyfnerth (wedi'i wneud yn wydn) neu bolycarbonad neu eu hamddiffyn yn addas â rhwyll wedi'i weldio i'w hatal rhag torri.

Rhaid bod golau naturiol ac artiffisial o safon ddigonol drwy'r amser er mwyn gweld y cŵn yn iawn a gallu glanhau'r sefydliad.

Dylid cadw cŵn mewn man heb ddrafftiau a lle gellir rheoli'r gwres a'r lleithder. Mae'n bwysig gosod gwely'r ci'n ofalus ac ystyried cynllun y gwely ei hun (fel ochrau uchel a'i godi uwchlaw lefel y ddaear).

Maint, Cynllun A Chyfleusterau Ymarfer Y Cenedl

26. Ar gyfer cenedl newydd, rhaid i bob cwt unigol gael man cysgu sydd yn o leiaf 1.9 metr sgwâr (20 troedfedd sgwâr).

Mewn cytiau cŵn sy'n bodoli eisoes, gall fod yn amhosibl cydymffurfio â'r safonau maint. Os felly, dylid rhoi Cynllun Gweithredu cytunedig ar waith i sicrhau cydymffurfio dros gyfnod o rai blynyddoedd.

27. Rhaid darparu deunydd gwely addas sy'n galluogi'r ci i fod yn gyfforddus ac sy'n hawdd ei lanhau a'i lanweithio yn ddigonol. Rhaid lleoli deunydd gwely o'r fath allan o ddrafftiau. Rhaid cynnal a chadw pob deunydd gwely mewn cyflwr glân, sych heb barasitiaid.

Mae'n ofyniad gan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 bod anifail yn gallu arddangos ymddygiad normal ac fel y cyfryw rhaid i gŵn gael ymarfer rheolaidd a phriodol yn ogystal â rasy a mynd am dro ar dennyn.

28. Ar gyfer cenedl newydd, rhaid i bob cwt unigol gael lle ymarfer i'r cŵn sydd yn o leiaf 3.34 metr sgwâr (36 troedfedd sgwâr), sydd ar wahân i'r man cysgu ac sydd ar gyfer defnydd penodol y cwt ci hwnnw yn unig. Dylai'r ci fedru ei defnyddio fel y mynn drwy'r amser heblaw yn ystod y nos.

Dylid cytuno Cynllun Gweithredu fel y disgrifir yn y nodiadau ym mharagraff 26. Dylai o leiaf hanner y man ymarfer fod o dan do, ac yn ddigonol i warchod y ci rhag y tywydd. Dylai rhywfaint o hyn fod yn ddeunydd tryleu sy'n gallu hidlo golau uwchfoled a darparu cysgod.

29. Rhaid bod cytiau ci yn o leiaf 1.8m (6 troedfedd) o uchder er mwyn i staff y cytiau cŵn fynd i mewn iddynt yn hawdd i'w glanhau.

30. Ni ddylid defnyddio'r man ymarfer yn lle gwely.

Rheoli

Hyfforddiant

31. Rhaid darparu polisi ysgrifenedig ar gyfer hyfforddi staff a rhaid dangos bod hwn wedi'i roi ar waith.

Mae hyfforddiant staff yn rhan hanfodol o reoli cenedl a rhaid ei gymhwyso i'r holl staff, boed yn staff parhaol neu dros dro. Dylai'r pynciau yr ymdrinnir â hwy yn yr hyfforddiant gynnwys glendid a hylendid, bwydo a pharatoi bwyd, adnabod a thrin anifeiliaid sâl, lles anifeiliaid, lechyd a Diogelwch a gweithdrefnau brys.

Tymheredd mewn Cytiau Cŵn

32. Rhaid bod cyfleusterau gwresogi ar gael yn y cytiau cŵn a rhaid eu defnyddio'n unol â gofynion y ci unigol.

Adeiladwyd sawl cenedl ci heb ystyried lles y cŵn yn iawn. Efallai nad yw deunyddiau y tu allan i'r cenedl yn cynnig digon o amddiffyniad thermol rhag yr amrywio mewn tymheredd sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn. Er y derbynir y gall tymheredd amgylchynol fod yn uwch na'r tymheredd a awgrymir, eto mae'n rhaid bod camau ar waith i awyru'n ddigonol i wneud iawn am hyn.

33. Rhaid bod rhyw ran o fan cysgu'r ci lle gall y ci fwynhau tymheredd isaf sydd yn o leiaf 10°C (50°F) ac yn ddim uwch na 22°C (79°F).

Nid yw'n ddigon da i dymhereddau syrthio uwchlaw neu islaw'r amrediad a awgrymir oherwydd cynllun annigonol a dylid rhoi sylw i insiwleiddio a gorweddiad yr adeilad i gynorthwyo wrth reoleiddio'r gwres. Bydd cytiau ci sy'n wynebu'r de yn anochel yn boethach na'r rheini sy'n wynebu'r gogledd. Bydd insiwleiddio digonol yn cynorthwyo i godi'r tymheredd yn y gaeaf (gan felly leihau'r biliau gwresogi) a rheoli'r gwres mewn tywydd poeth.

Rhaid darparu digon o wres i gadw'r tymheredd isaf a awgrymir. Dylid osgoi ceblau noeth a fflamau noeth. Gall lampau gwres roi digon o wres mewn tywydd oer.

Glendid

34. Rhaid cadw pob cwt ci, coridor, ardal gyffredin, cegin ac yn y blaen yn lân a heb fudredd a llwch yn casglu. Rhaid eu cadw mewn dull sy'n addas i reoli clefydau a chadw'r ci'n gysurus.

Dylid sefydlu trefn lanhau i gynnwys gwaredu solidau, glanhau, diheintio a sychu. Fel arfer, ar ôl casglu carthion yn ffisegol (bwced a rhaw), golchir â dŵr a glanedydd er bod pibell gwasgedd neu lanhawr stêm yn fwy effeithiol. Nid yw diheintio syml yn ddewis yn lle glanhau trwyadl.

35. Os oes ci yn y cwt, yna mae'n rhaid glanhau'r cwt bob dydd. Rhaid gwaredu'r holl garthion a deunydd wedi baeddu o bob rhan a ddefnyddir gan gŵn o leiaf unwaith y dydd ac yn amlach os oes angen.

Os defnyddir unrhyw ddiheintydd, dylai tafienni data COSHH fod ar gael rhag ofn y ceir tollti anaf damweiniol i staff.

36. Rhaid cadw pob lle cysgu yn lân ac yn sych.
37. Rhaid darparu cyfleusterau ar gyfer derbyn, storio a gwaredu pob gwastraff yn briodol. Dylid cymryd gofal penodol i wahanu gwastraff clinigol sy'n deillio o drin a thrafod cŵn sydd â chlefyd heintus. Llosgi yw'r llwybr gwaredu olaf i bob gwastraff.
38. Rhaid cymryd camau i leihau risgiau a ddaw o gnoflod, pryfed ac anifeiliaid anwes eraill yn y sefydliad.

Cyflenwadau Bwyd A Dŵr

39. Rhaid rhoi digon o fwyd addas i bob ci. Rhaid bod dŵr iachus ar gael drwy'r amser a rhaid ei newid bob dydd.
40. Rhaid sicrhau ei bod yn hawdd glanhau a diheintio llestri bwyta ac yfed y cŵn i atal traws-heintio. Rhaid eu cadw mewn cyflwr glân.
41. Rhaid glanhau llestri bwyta ar ôl pob pryd.
42. Rhaid glanhau llestri yfed o leiaf unwaith y dydd.

Cyfleusterau Cegin

43. Rhaid darparu cyfleusterau cegin, wedi'u hadeiladu a'u cynnal yn hylan, ar gyfer storio a pharatoi bwyd ar gyfer cŵn.
44. Os cedwir cigoedd ffres a chigoedd wedi'u coginio, rhaid darparu cyfleusterau cadw bwyd yn oer, a rhaid osgoi heintio bwyd posibl.
45. Rhaid darparu sinc sydd â dŵr poeth ac oer ar gyfer golchi'r offer bwyd a'r llestri bwyta ac yfed. Os cyflogir staff, rhaid darparu basn golchi dwylo ar wahân sydd â dŵr poeth ac oer.
46. Rhaid darparu cynwysyddion i gadw bwyd, a rhaid eu bod wedi eu hadeiladu yn y fath fodd a'u cadw yn y fath gyflwr da ag i sicrhau eu bod yn ddiogel rhag pryfed a phlâu eraill.

Rheoli Clefydau a Brechu

47. Dylai pob ci gael ei frechu pan fydd yn gi bach. Dylid rhoi brechiad atgyfnerthu rheolaidd yn ôl cyngor y milfeddyg. Dylid cael cyngor hefyd am driniaethau ataliol addas eraill.
48. Rhaid bod blwch cymorth cyntaf i'w ddefnyddio ar gŵn ar gael ar y safle, a bod hwn yn hawdd cael ato ac wastad â chyflenwad da ynddo.

Cofnodion ac Adnabod Cytiau Cŵn

49. Rhaid marcio pob cwt ci yn glir (e.e. ei rifo), a rhaid bod system ar waith sy'n sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am y ci yn y cwt hwnnw ar gael yn hawdd.

Er mwyn gwaredu gwastraff arall o'r sefydliad o dan Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990, rhaid gwneud trefniadau â'r Awdurdod Casglu Gwastraff neu gontractwr rheoli gwastraff a awdurdodwyd at ddibenion y ddyletswydd gofal. Rhaid arllwys dŵr gwastraff budr i'r system ddraenio gymeradwy.

Dylid bwydo cŵn i safon sy'n gydnaws â chynnal iechyd ci sy'n gorfforol iach. Bydd arolygwyr yn asesu statws maeth y cŵn a math ac ansawdd y bwyd yn y storfa ac yn y broses baratoi.

Ni ddylid gadael bwyd yn rhy hir yn y cwt ci, er mwyn osgoi arogleuon a chlêr. Efallai bydd angen mwy o fwyd a dŵr ar gŵn ifanc. Ni ddylid gadael unrhyw fwyd allan dros nos.

Os oes tystiolaeth o bla parasitiaid, rhaid rhoi triniaeth addas yn ôl cyngor milfeddyg.

Rhaid bod cyflenwad digonol yn y blwch cymorth cyntaf drwy'r amser, a'i gynnwys yn dilyn cyngor gan y milfeddyg.

Rhaid penodi milfeddygfa i roi gofal iechyd i'r cŵn. Rhaid bod y rhif ffôn ar gyfer cyswllt brys ar gael yn hawdd i'r staff.

Dylai cofnodion clinigol bob ci fod ar gael yn hawdd i staff a'r milfeddyg eu harchwilio. Mae marcio cytiau cŵn yn glir ac enwi'r ci sydd yn y cytiau yn rhan hanfodol o hyn.

Goruchwyliaeth

50. Rhaid bod rhywun addas a phriodol yn bresennol drwy'r amser i oruchwyllo ac ymdrin ag argyfyngau pryd bynnag fo cŵn ar y safle.
51. Rhaid ymweld â chŵn yn rheolaidd yn ôl yr angen o ran eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles.

Rhagofalon Tân

52. Rhaid cymryd camau priodol i amddiffyn y cŵn rhag tân neu argyfyngau eraill.
53. Rhaid llunio cynllun gwagio brys priodol a gweithdrefn rhybudd tân a'u harddangos ar y safle. Rhaid i hyn gynnwys cyfarwyddiadau ynghylch ble y dylid symud cŵn allan os bydd tân neu argyfwng arall.
54. Rhaid darparu offer diffodd tân yn unol â'r cyngor a roir gan y Swyddog Atal Tân neu rywun arall â chymwysterau addas.
55. Rhaid cadw pob gosodiad a dyfais drydanol mewn cyflwr diogel. Rhaid bod system torrwr cylched cerrynt gweddilliol ar bob bloc o gytiau cŵn.
56. Ni cheir gosod dyfeisiau gwresogi mewn man neu ffordd sy'n gallu cyflwyno risg tân, neu risg i'r cŵn.
57. Rhaid cymryd rhagofalon i atal unrhyw groniad a allai gyflwyno risg tân.
58. Rhaid bod ffordd ddigonol o ganu larwm os bydd tân neu argyfwng arall.

Ni ddylai'r bwll rhwng mynd i weld y cŵn fod yn hirach na phedair awr rhwng 08.00 a 18.00. Efallai y bydd mynd i'w gweld gyda'r nos hefyd yn briodol ond dylid cydbwysu hyn â'r aflonyddu ar y cŵn a'r cymdogion.

Argymhellir cofnodi cynlluniau a manylion y sefydliad gyda'r heddlu a'r gwasanaeth tân. Dylid ceisio cyngor ynghylch amddiffyn rhag tân gan rywun â chymwysterau addas o ran defnyddio'r diffoddwyr tân priodol, eu safle cywir, ymarferion tân a diangfeydd tân. Dylid cadw cofnod o ddigwyddiadau megis pryd y gwirwyd y diffoddwyr, ac ymarferion tân. Cofier yr egwyddor gyffredinol y dylid rhoi pobl yn gyntaf os bydd tân.

Os yw adeiladau newydd yn cael eu codi neu waith ailadeiladu'n cael ei wneud, bydd y swyddog amddiffyn rhag tân yn rhoi cyngor ynghylch gofynion atal tân.

Dylai cyngor gan rywun â chymwysterau addas fod yn ysgrifenedig. Dylid ystyried yn benodol y ffordd y caiff sylweddau fflamadwy eu storio. Dylai staff gael hyfforddiant i ddefnyddio diffoddwyr tân. Mae'n ddoeth gosod canfodyddion mwg.

Sicrhewch nad yw cŵn yn mynd yn agos at ddyfeisiau gwresogi fflam agored.

ATODIAD C

Canllawiau Arfer Da – Cludo

Noder ein bod wedi cymryd y canllawiau hyn o Reolau Rasio'r Clwb Rasio Milgwn Cenedlaethol (NGRC) Atodiad 2 – Canllawiau ar gyfer Cludo Milgwn⁷ (a'u diwygio/diweddarau ychydig) – ac o'r herwydd, maent yn rhoi safbwynt cynhwysfawr, ond anghyflawn efallai, ar gludo.

Cyflwyniad

Mae cludo milgwn yn elfen gynhenid o'r diwydiant rasio milgwn; anaml y mae cŵn yn byw ac yn rasio mewn un safle. Mae'n debygol hefyd y bydd milgwn yn cael eu cludo'n amlach na'r rhan fwyaf o gŵn eraill a bod hyn yn digwydd pan fo'r anifail yn debygol o fod o dan straen seicolegol sylweddol o ganlyniad i rasio neu dreialu. Mae'n bwysig felly cael yr amodau cludo gorau posibl. Yn ogystal, Milgwn yw un o'r ychydig rywogaethau nad ydynt wedi'u ffermio lle ceir masnach genedlaethol a rhyngwladol sylweddol. Mae hyn yn arwain at lawer o gludo dros bellteroedd maith ac mae'n bwysig bryd hynny hefyd darparu amodau digon da i'r cŵn.

Bwriad y canllawiau hyn yw cynorthwyo pobl sy'n cludo Milgwn i ddarparu'r amodau hynny. Nid ydynt yn gyfarwyddol ac eithrio mewn nifer fechan o feysydd fel meintiau cawell.

Deddfwriaeth

Bwriad prif adran y canllawiau hyn yw rhoi gwybodaeth i bobl sy'n cludo Milgwn iach. Gan amlaf yn y diwydiant rasio, mae'n debygol y bydd y gyfraith yn ystyried cludo felly yn 'fasnachol' ac mae felly'n amodol ar Reoliad Cyngor (CE) 1/2005 ynghylch amddiffyn anifeiliaid wrth gludo⁸ a Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007, a elwir yn WATO. Dylai'r amodau a awgrymir yn y canllawiau hyn helpu cludwyr i gydymffurfio â WATO ond gellir gweld y ddogfen lawn ar:

http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2007/wsi_20071047_mi.pdf

Mae arweiniad pellach i'w weld ar: http://new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/animal_welfare/animalsintransport/?lang=en

Gweler ôl-nodyn am arweiniad pellach ynghylch yr adegau pan fo angen cludo Milgwn sâl neu sydd wedi'u hanafu.

Os yw unrhyw siwrnai'n fwy na 65 cilometr, mae WATO yn mynnu bod rhaid cael Awdurdodiad Cludwr Anifeiliaid a bod rhaid i yrrwr y cerbyd ei gario. Mae'r Rheoliad yn berthnasol i bawb sy'n ymwneud â chludo anifeiliaid fertebraidd mewn cysylltiad â gweithgarwch economaidd. Er enghraifft, cludwyr da byw a cheffylau, ffermwyr, bridwyr anifeiliaid, cludwyr anifeiliaid sy'n perfformio a'r rheini sy'n gweithio mewn marchnadoedd, canolfannau ymgynnull a lladd-dai. Nid yw'n berthnasol i unigolion sy'n marchogaeth er pleser sy'n cludo eu ceffyl eu hunain nac unigolion sy'n mynd â'u hanifeiliaid anwes eu hunain ar wyliau. Nid yw'n berthnasol chwaith i ffermwyr sy'n cludo un anifail.

Gellir gweld gwybodaeth bellach gan gynnwys arweiniad a'r ffurflenni perthnasol ar:

http://new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/animal_welfare/animalsintransport/?lang=en

Wrth reswm mae pob deddfwriaeth arall am les anifeiliaid yn berthnasol hefyd. Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006⁹ yn rhoi 'dyletswydd gofal' gyffredinol ar bob perchennog a cheidwad i ddarparu amodau da i'w cŵn drwy'r amser.

Amodau cyffredinol

Yn ystod unrhyw gludo ar y ffordd, rhaid bod y gyrrwr yn ymwybodol o'r ffaith ei fod yn cludo anifeiliaid ymdeimladol a bod ganddo ddyletswydd gofal i sicrhau bod safon y gyrru a'r gofal o'r un safon â'u cysur (h.y. gyrru'n synhwyrol). Dylai pobl sy'n cadw Milgwn sicrhau bod gyrrwyr wedi cael eu hyfforddi a'u bod wedi dangos eu bod yn gymwys i ofalu am y cŵn.

Dylai'r amser teithio disgwylidiedig o genel cŵn yr hyfforddwr i'r trac cysylltiedig ar gyfer rasio fod yn llai na phedair awr.

Dylid aros o leiaf hanner awr ar ôl rasio cyn llwytho milgwn i'w cludo, er mwyn iddynt oeri.

⁷ http://www.ngrc.org.uk/rule_book.asp?rule=223

⁸ http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/site/en/oj/2005/l_003/l_00320050105en00010044.pdf

⁹ http://new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/animal_welfare/animalwelfareact/?lang=en

Cynllunio

Mae'n hanfodol cynefino cŵn â theithio er mwyn lleihau straen cludo. Dylid gwneud hyn cyn pedair ar ddeg wythnos oed os yw'n bosibl fel bod y milgi wedi arfer â chael ei gludo. Bydd hefyd yn helpu i gyflwyno milgi ifanc i'r byd ehangach ar yr un oedran ac ymhell cyn y treialon cychwynnol tua un mis ar ddeg oed.

Dylai'r amodau a ddarperir fod yn rhannol gysylltiedig â hyd y siwrnai. Dylid cynllunio pob siwrnai'n briodol a dylai hyn gynnwys cynllunio rhag ofn y bydd y siwrnai'n parhau'n hirach na'r disgwyl yn ogystal â mannau i aros ar gyfer cael dŵr, bwyd neu wacáu. Dylid cynnwys manylion felly yn yr ATC.

Ymhlith y ffactorau eraill i'w hystyried y mae'r modd teithio e.e. car, môr neu awyr a'r cyfle i orffwys.

Ni ddylai unrhyw ran o siwrnai fod dros bedair awr ar hugain a rhaid gorffwys am ddeuddeg awr cyn unrhyw siwrnai ddilynol. Os yw unrhyw ran o'r siwrnai'n cynnwys taith fôr, rhaid cynnwys hyn yn amser y siwrnai.

Rhaid ffrwyno milgwn tra byddant yn cael eu cludo. Gellir gwneud hyn naill ai drwy harnais wedi'i glymu'n briodol os yw'r milgi'n teithio yng nghefn car, drwy ddefnyddio gard cŵn diogel mewn car stad neu mewn cewyll wedi'u clymu'n dynn i'r cerbyd. Dylai'r cŵn fod yn gyfan gwbl y tu mewn i'r cerbyd a dylai'r gyrrwr ystyried peryglon posibl eraill fel bylchau rhwng seddi ceir a handlenni drws.

Gall milgwn deithio mewn parau mewn car ar yr amod bod y cewyll yn ddigon mawr a bod y ddau gi'n gwisgo mwsel. Dylai cewyll mewn cerbydau a adeiladwyd yn bwrpasol gael eu cynllunio ar gyfer un ci.

Os oes angen symud torllwyth o gŵn bach cyn eu diddyfnu, dylent deithio gyda'i gilydd. Os byddant yn teithio gyda'u mam, dylent deithio mewn cawell ddwbl.

Gall fod yn ddefnyddiol cael rhestr wirio i sicrhau bod popeth yn cael ei gofio.

Cewyll

Er bod Fforwm Milgwn Cymru wedi cytuno i beidio ag argymhell maint cawell penodol, rydym yn credu y dylai cawell i ddal milgi fod yn ddigon mawr i amddiffyn lles y ci. Mae aelodau unigol Fforwm Milgwn Cymru yn debygol o argymhell eu barn eu hunain ynghylch maintiau penodol mewn ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae'r grwpiau lles ar y Fforwm yn credu hefyd y dylai'r cawell alluogi'r milgi i sefyll yn llawn a gorwedd yn gyfforddus, ac y dylid ei adeiladu mewn modd nad yw'n achosi unrhyw niwed i'r ci.

I deithio mewn awyren, rhaid dilyn rheolau IATA ynghylch maintiau cawell. Mae Rheoliadau Anifeiliaid Byw IATA cyfredol ar gael o'r Llyfrfa, rhif ffôn: 020 7838 8400.

Dylid adeiladu cewyll o ddeunyddiau anhydraidd fel uPVC, rhwyllau gwifrog gwrthrwd o ddur gwrthstaen (*rustproof (stainless) steel mesh*) neu bren wedi'i beintio. Rhaid bod ganddynt lawr gwrthlithro addas sy'n hawdd ei lanhau i roi cysur i'r milgi. Gellir gosod carped, mat neu ddeunydd a gynlluniwyd yn bwrpasol fel deunydd gwely cnu milfeddygol. Dylai'r cawell fod yn ddiogel rhag gollyngiadau i atal unrhyw droeth/wrin rhag dianc. Rhaid bod y drws wedi'i ddiogelu'n ddigon da ond eto yn hawdd ei agor heb offer pe byddai argyfwng.

Rhaid glanhau pob cawell yn drwyadl rhwng pob defnydd. Os yw traws-heintio yn bosibl, rhaid defnyddio diheintydd addas ar ôl glanhau.

Cerbyd

Rhaid cadw tymheredd y cerbyd rhwng 10°C a 22°C drwy'r amser wrth gludo. Pan nad yw'r gyrrwr yn yr un man â'r Milgwn, rhaid i ddyfais fonitro o bell arddangos y tymheredd yng nghaban y milgwn a rhaid bod modd ei gweld o sedd y gyrrwr. Os yw'r tymheredd yn codi uwchlaw 22°C mae'n bwysig archwilio cŵn yn rheolaidd am arwyddion o fod mewn gofid a'u tynnu allan o'r cerbyd i oeri os oes angen. Rhaid monitro'r tymheredd a chadw cofnodion.

Mae cŵn yn cadw eu hunain yn oer drwy anweddu dŵr o'u tafodau drwy ddyhefnod ac anadlu'n drwm. Mewn amodau poeth a llaith iawn, daw hyn yn aneffeithiol a bydd y ci'n dioddef trawiad gwres o ganlyniad. Mae'n bwysig felly rheoli'r tymheredd a'r lleithder. O ganlyniad, gallai fod yn wrthgynhyrchiol gwlychu ci i'w oeri.

Yn fras, os oes anwedd y tu mewn i gerbyd mae'n arwydd bod y lleithder yn rhy uchel a bod rhaid awyru'r car yn fwy i'w atal.

Cyflwyniad i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Dylid cynllunio'r cerbyd i ddarparu o leiaf deuddeg newid aer bob awr drwy gydol yr adeg pan gludir milgwn. Rhaid bod o leiaf 40% o waliau cewyll mewn cerbydau yn agored er mwyn gadael i ddigon o aer lifo drwyddynt. Y ffordd orau o wneud hyn yw cael drws a chefn y cawell wedi'i wneud o rwyllau gwifrog gwrthrwdd (o ddur gwrthstaen) yn ogystal â lle agored ychwanegol ar ei ochrau er mwyn gadael aer i mewn drwy'r cawell.

Rhaid ei bod yn bosibl rheoli'r tymheredd ac awyru pan fo'r cerbyd yn llonydd. Y ffordd orau o wneud hyn yw aerdymheru llawn. Dylid sicrhau ffordd o adael aer i mewn petai argyfwng; gallai hyn fod mor syml ag agor holl ddrysau'r cerbyd.

Rhaid cadw diffoddwr tân sy'n gweithio ac sy'n cael ei drin yn rheolaidd ym mhob cerbyd sy'n cario cŵn. Gall fod yn ddoeth rhoi arwydd ar y tu allan i'r cerbyd fod anifeiliaid byw yn cael eu cludo i rybuddio'r gwasanaethau brys.

Gofal yn ystod y siwrnai

Ar gyfer unrhyw siwrnai dros bedair awr, rhaid cynnwys digon o seibiannau gorffwys ar gyfer cael dŵr, bwyd a gwacáu. Rhaid darparu dŵr bob pedair awr, neu'n ddigon aml i atal dadhydradiad. Rhaid gwacáu bob wyth awr a darparu bwyd bob pedair awr ar hugain.

Dylai dŵr fod ar gael yn hawdd i filgwn nes cânt eu llwytho ar gyfer siwrnai. Ni ddylid rhoi unrhyw fwyd am ddwy awr cyn teithio a dylid rhoi cyfle i wacáu yn syth cyn llwytho.

Canllawiau Ychwanegol ar gyfer cludo milgwn sâl neu wedi'u hanafu

- A. Dim ond er mwyn ei drin y ceir cludo ci sâl neu gi wedi'i anafu. Os nad yw ci'n gallu sefyll yn llawn ar ei bedair coes neu os yw'n agos iawn (cyn ac wedyn) i fwrw cenau, caiff ei eithrio'n benodol gan WATO rhag cludiant arferol. Yn yr un modd, ystyrir nad yw'n addas cludo cŵn bach â bogeiliau sydd heb wella.
- B. Dylai amser y siwrnai fod gyn lleied ag sydd ei angen i gael gofal milfeddyg i'r milgi. Derbynnir y gallai anafiadau orthopaedig fynnu siwrnai gymharol hir i filfeddyg arbenigol.
- C. Pan fo milgi mewn poen difrifol, rhaid i filfeddyg roi rhywbeth priodol i leddfu'r boen. Os yw'r boen o ganlyniad i dorasgwrn, dylid ystyried rhyw ffordd o lonyddu'r torasgwrn dros dro i leddfu'r boen wrth gludo. Gall fod yn ddoeth hefyd roi tawelyddion yn ogystal â rhywbeth i leddfu'r boen. Dylai'r milfeddyg sy'n gofalu am y milgi ar ddechrau'r siwrnai allu sicrhau y bydd y poenleddfwyr ac/neu dawelyddion a ddarperir yn para hyd arfaethedig y siwrnai o leiaf. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid gwneud trefniadau i roi meddyginiaeth ychwanegol yn ystod y daith.
- D. Os yw milgi wedi cael ei anafu, mae'n well iddo gael ei gludo mewn cerbyd lle gall rhywun fod gyda'r ci drwy'r amser i gynorthwyo i'w ffrwyno. Mae car yn ddelfrydol.
- E. Gan fod ci wedi'i anafu yn debygol o ddioddef sioc, dylid cadw tymheredd y cerbyd yn 20°C o leiaf a dylid darparu deunydd gwely ychwanegol.